


# Cronfa Bensiynau Clwyd

## Cynllun Busnes 2025/2026 i 2027/2028

### Mawrth 2025



## Tudalen Cynnwys

|                                                                                 |    |
|---------------------------------------------------------------------------------|----|
| Cyflwyniad.....                                                                 | 3  |
| Gwybodaeth am Gronfa Bensiynau Clwyd .....                                      | 5  |
| Yr hyn rydym yn ei wneud .....                                                  | 5  |
| Amcanion ar gyfer Rheoli'r Gronfa .....                                         | 6  |
| Llywodraethu a Rheoli'r Gronfa.....                                             | 7  |
| Tîm Rheoli'r Gronfa Bensiynau .....                                             | 8  |
| Y cynllun ar gyfer y tair blynedd nesaf.....                                    | 9  |
| Risgiau, Heriau a Dylanwadau Allweddol .....                                    | 9  |
| Cyflawni'r Cynllun Busnes .....                                                 | 11 |
| Monitro ac Adrodd.....                                                          | 11 |
| Cynllun Hyfforddi .....                                                         | 11 |
| Llif Arian a Chyllideb 2025/2026.....                                           | 12 |
| Cyllideb Costau Gweithredu 2025/2026.....                                       | 12 |
| Amcanestyniad llif arian ar gyfer 2025/2026 i 2027/2028 .....                   | 13 |
| Atodiad Llywodraethu .....                                                      | 15 |
| Tasgau allweddol y Cynllun Busnes .....                                         | 20 |
| Atodiad Cyllid, Buddsoddiadau a Chyllido .....                                  | 26 |
| Tasgau allweddol y Cynllun Busnes .....                                         | 30 |
| Atodiad Gweinyddu a Chyfathrebu (yn cynnwys y Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr)..... | 37 |
| Tasgau allweddol y Cynllun Busnes .....                                         | 42 |

## Cyflwyniad

Dyma gynllun busnes Cronfa Bensiynau Clwyd a gaiff ei rheoli a'i gweinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Fe'i cymeradwywyd yng nghyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 20 Mawrth 2024 ac mae'n cynnwys ein blaenoriaethau a meysydd pwyslais allweddol ar gyfer 2024/2025, 2025/2026 a 2026/2027.

Mae trefn ffurfiol ar gyfer adolygu'r cynllun busnes bob blwyddyn a chytuno arno. Caiff ei fonitro gydol y flwyddyn ac mae'n bosibl y gofynnir i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau gytuno ar newidiadau ynddo.

Diben y cynllun busnes yw:

- egluro'r cefndir a'r amcanion ar gyfer rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd
- cofnodi'r blaenoriaethau a'r gwelliannau i'r gwasanaeth pensiwn eu gweithredu yn ystod y tair blynedd nesaf i helpu i gyflawni'r amcanion hynny
- sicrhau y gellir monitro cynnydd a pherfformiad wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny
- rhoi gweledigaeth glir am y tair blynedd nesaf i'r staff, partneriaid a chwsmeriaid

Mae'r cynllun busnes hwn hefyd yn cynnwys cyllideb ar gyfer taliadau y disgwylir i Gronfa Bensiynau Clwyd eu derbyn a'u gwneud yn ystod 2024/2025, yr adnoddau sydd eu hangen i reoli'r Gronfa a'r llifau arian a ddisgwylir dros gyfnod y cynllun hwn.

Roedd disgwyl i 2025/2026 fod yn flwyddyn brysur i swyddogion, gweithwyr a Phwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau oherwydd nifer yr ymarferion arwyddocaol y mae angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys Prisiad Actiwaraid 2025, adolygu'r strategaeth fuddsoddi gysylltiedig a'r Gronfa yn cyrraedd y dyddiad cysylltu ar gyfer y Dangosfyrddau Pensiynau.

Fodd bynnag ar ben hynny, ym mis Gorffennaf 2024 lansiodd y Canghellor yr Adolygiad Pensiynau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys dau gam. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon rydym yn aros am ymateb y Llywodraeth i ail gam yr adolygiad. Roedd y cynigion a nodwyd yn ymgynghoriad "CPLIL Parod at y Dyfodol" yn yr ail gam ym mis Tachwedd 2024, yn cynnwys tri gofyniad allweddol ar gyfer cronfeydd sef: cronni'r holl asedau mewn cronfa asedau a reoleiddir gan yr FCA, cymryd cyngor buddsoddi "prifswm" o'r gronfa asedau a nifer o ofynion llywodraethu gan gynnwys penodi Uwch Swyddog CPLIL, penodi cynghorydd annibynnol a mwy o ofynion gwybodaeth a sgiliau ar gyfer aelodau pwyllgor.

Byddai'r newidiadau buddsoddi arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar allu'r Gronfa i roi'r strategaethau presennol ar waith a byddai'n cymryd cryn amser ac ymdrech gan dîm rheoli'r Gronfa i reoli'r broses o drosglwyddo asedau a chynorthwyo'r gronfa asedau yn eu prosiect i gael ei rheoleiddio gan yr FCA a derbyn holl asedau'r gronfa o bob rhan o Gymru. Mae hyn wedi cynyddu'r risgiau i'r Gronfa mewn perthynas â chyflawni polisïau'r Gronfa ac o ran cael digon o adnoddau i sicrhau bod mod cyflawni gwaith prosiect newydd a gweithgareddau

busnes yn ôl yr arfer. Mae'r effaith yn debygol o gael ei deimlo ar draws pob maes o fewn y Gronfa.

O ganlyniad, mae'n anodd gwneud cynlluniau pendant y tu hwnt i 2025/2026, oherwydd efallai y bydd angen gwneud newidiadau wrth i ragor o wybodaeth ddod i law gan y Llywodraeth a'r Gronfa Asedau. Rydym wedi nodi ein hamcangyfrif gorau ar gyfer y ddwy flynedd yn dilyn mis Mawrth 2026, ond mae'n bosibl y bydd angen ei adolygu yn ystod 2025/2026.

**Philip Latham**

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Cyngor Sir y Fflint

## Gwybodaeth am Gronfa Bensiynau Clwyd

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa") yn Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gwerth £2.5 biliwn<sup>1</sup> ac mae'n darparu buddion marwolaeth ac ymddeol ar gyfer gweithwyr awdurdodau lleol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru (ac eithrio athrawon, yr heddlu a diffoddwyr tân), a gweithwyr o gyrff cymwys eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg. Ar hyn o bryd mae 52 o gyflogwyr yn cyfrannu a thua 52,000 o aelodau, fel y dangosir yn y tabl isod:

| Aelodau                              | 31 Rhagfyr 2023 | 31 Rhagfyr 2024 |
|--------------------------------------|-----------------|-----------------|
| Cyfranwyr gweithredol                | 17,725          | 17,408          |
| Aelodau wedi ymddeol a goroeswyr     | 15,674          | 17,266          |
| Aelodau gohiriedig ac aelodau eraill | 16,641          | 17,025          |

## Yr hyn rydym yn ei wneud

Mae ein gwaith yn cynnwys gweithgareddau bob dydd (mae crynodeb isod) a gwaith prosiect ychwanegol:

- Llywodraethu a rheoli'r Gronfa, yn cynnwys cyfrifeg statudol ac adrodd statudol ac anstatudol arall
- Sicrhau ein bod yn derbyn yr holl gyfraniadau pensiwn sy'n cael eu talu gan aelodau gweithredol y Gronfa, a sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn y Gronfa yn talu eu cyfraniadau pensiwn
- Cynnal a diogelu data cyfredol yr aelodau, a chyfrifo a thalu buddion pensiwn i neu dros ein holl fuddiolwyr, fel y nodir yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Cyfathrebu ag aelodau'r cynllun a chyflogwyr ynglŷn â'u haelodaeth o'r Gronfa
- Diogelu'r arian yn y Gronfa (asedau'r Gronfa) a buddsoddi unrhyw asedau nad oes eu hangen ar hyn o bryd i dalu buddion
- Monitro sefyllfa ariannol y Gronfa (lefel yr asedau o'u cymharu â rhwymedigaethau) a gweithredu os oes angen
- Gweithio gyda'r actiwari i bennu, bob tair blynedd, y symiau y mae angen i gyflogwyr eu talu i'r Gronfa er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o arian i dalu buddion pensiwn yn y dyfodol, wrth weithio gyda chyflogwyr i reoli fforddiadwyedd

Mae dadansoddiad pellach o'r hyn a wnawn a'n cynllun ar gyfer y flwyddyn, wedi'i grwpio dan yr is-benawdau llywodraethu; cyllid, buddsoddiadau a chyllido; a gweinyddu a chyfathrebu; ar gael yn yr Atodiadau.

<sup>1</sup> Gwybodaeth gywir ar 31 Rhagfyr 2024.

# Amcanion ar gyfer Rheoli'r Gronfa

Ein Datganiad Cenhadaeth yw:


- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n ddibynadwy i'r holl gwsmeriaid
- bod wedi meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd uchaf, yn unol ag adnoddau'r gyllideb
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni

Rhestrir ein strategaethau a pholisïau allweddol isod. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael ar ein gwefan yn [cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisïau/cartref.aspx](http://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisïau/cartref.aspx)

| Llywodraethu                                   | Cyllid, Buddsoddiadau a Chyllido                                                                                                                   | Gweinyddu a Chyfathrebu                                                   |
|------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|
| Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio   | Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi (DSF)                                                                                                            | Strategaeth Weinyddol                                                     |
| Polisi Gwybodaeth a Sgiliau                    | Polisi Buddsoddi Cyfrifol (yn y DSF)                                                                                                               | Strategaeth Gyfathrebu                                                    |
| Polisi Gwrthdaro Buddiannau                    | Datganiad y Strategaeth Gyllido                                                                                                                    | Polisi Cadw Data Personol                                                 |
| Polisi Rheoli Risg                             | Er nad ydynt yn dechnegol yn ddogfennau strategaeth, mae Adroddiad a Chyfrifon y Gronfa a'r Adroddiad Prisio Actiwaraid hefyd yn ddogfennau pwysig | Datganiad o Bolisïau Dewisol yr Awdurdod Gweinyddu                        |
| Polisi Parhad Busnes                           |                                                                                                                                                    | Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol                                            |
| Gweithdrefn Adrodd am Achosion o Dor-cyfraith  |                                                                                                                                                    | Polisi ar Ordaliadau a Than-daliadau Buddion Cynllun Pensiwn              |
| Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth        |                                                                                                                                                    | Polisi ar gyfer Gweinyddu Lwfansau Treth a Rhoi Gwybod i Aelodau Amdanynt |
| Strategaeth Seiber                             |                                                                                                                                                    |                                                                           |
| Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |                                                                                                                                                    |                                                                           |

Mae mwy o wybodaeth am ein hamcanion llywodraethu; gweinyddu a chyfathrebu; cyllid, buddsoddiadau a chyllido ar gael yn yr Atodiadau.

## Llywodraethu a Rheoli'r Gronfa




Fel y dangosir yn y siart uchod, mae Cyngor Sir y Fflint (“y Cyngor”) wedi dirprwyo’r gwaith o benderfynu ynghylch y Gronfa a’i rheoli i’r Pwyllgor Cronfa Bensiynau (“y Pwyllgor”), wedi’i gefnogi gan Banel Ymgynghorol Pensiynau (“y Panel”). Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yw’r Swyddog Adran 151 sydd â chyfrifoldeb statudol dros faterion ariannol priodol y Cyngor, gan gynnwys materion y Gronfa. Yr Uwch Swyddog CPLIL yw Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae’r Bwrdd Pensiynau Lleol yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â materion y Gronfa a sicrhau bod y Gronfa yn cael ei llywodraethu a’i gweinyddu’n effeithlon ac effeithiol.

Mae Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru (cronfa asedau Cymru) yn gydbwyllgor o blith yr wyth awdurdod gweinyddu sy’n cyfranogi o’r Gronfa yn ogystal â chynrychiolydd aelodau’r cynllun heb bleidlais. Mae’r Cydbwyllgor Llywodraethu yn cael ei gynghori gan Weithgor Swyddogion, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o’r awdurdodau gweinyddu. Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ei chyflenwyr a’i hymgyngorwyr ei hun, a’i chynllun busnes ei hun, sy’n cynnwys manylion y prosiectau sydd eu hangen i fodloni gofynion newydd y llywodraeth o ran cronni asedau CPLIL.

Mae cytundeb rhwng yr wyth awdurdod gweinyddu sy’n cyfranogi yn dirprwyo rhai penderfyniadau am fuddsoddiadau i’r Cydbwyllgor Llywodraethu. Er ein bod yn penderfynu ar ein strategaeth fuddsoddi ein hunain ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, Partneriaeth Pensiwn Cymru sy’n dewis rheolwyr y gronfa, neu yn achos marchnadoedd preifat, dyranwyr asedau. Caiff cyfran sylweddol o’n hasedau eu dal y tu allan i PPC, ac rydym yn parhau i drosglwyddo ein hasedau presennol i’r gronfa lle bo’n briodol, ac yn unol â’r gofynion a nodir gan y llywodraeth.

## Tîm Rheoli’r Gronfa Bensiynau

Mae rheoli’r Gronfa o ddydd i ddydd yn cynnwys amrywiaeth helaeth o brosesau a gweithdrefnau, sydd wedi cael eu llunio o amgylch cyflawni amcanion ein Cronfa a gofynion cyfreithiol. Rheolir y gweithrediadau o ddydd i ddydd gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd gyda chefnogaeth Tîm Rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd fel y nodir yn y siart isod:



- **Yr Adain Llywodraethu, Gweinyddu a Chyfathrebu**, dan arweiniad y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau, sy'n gyfrifol am gyflawni ein Strategaethau Llywodraethu, Gweinyddu a Chyfathrebu. Cefnogir yr adain gan 55 o swyddi cyfwerth â llawn amser ym meysydd gweinyddu a llywodraethu.
- Mae'r **Adain Cyllido a Chyfrifyddu**, a arweinir gan y Rheolwr Cyllid Pensiynau (Cyllido a Chyfrifyddu), yn gyfrifol am gyflawni strategaethau Cyllido'r Gronfa a materion Cyllido a Chyfrifyddu.
- Mae'r **Adain Buddsoddiadau**, a arweinir gan y Rheolwr Cyllid Pensiynau (Buddsoddiadau), yn gyfrifol am gyflawni Strategaethau Buddsoddi'r Gronfa, ac yn gyfrifol am fuddsoddiadau. Mae'r adain hon, ynghyd â'r adain Cyllido a Chyfrifyddu, yn cael eu cefnogi gan 6 o swyddi cyllid cyfwerth â llawn amser.

## Y cynllun ar gyfer y tair blynedd nesaf

### Risgiau, Heriau a Dylanwadau Allweddol

Ar y cyfan, bydd y blynyddoedd nesaf yn heriol i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â llywodraethu'r Gronfa, ei rheoli a'i gweithredu. Mae nifer sylweddol o newidiadau deddfwriaethol a dylanwadau allanol yn parhau i effeithio arnom, yn enwedig Adolygiad Pensiwn Trysorlys Ei Fawrhidi sy'n debygol o effeithio ar y ffordd yr ydym yn rheoli asedau'r Gronfa gan gynnwys model gweithredu PPC. Felly mae rheolaeth y Gronfa yn parhau i ddod yn fwy cymhleth. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried ymddeoliadau disgwylidig ar draws y timau mewnol. Caiff y rhain, a blaenoriaethau eraill ar gyfer y tair blynedd nesaf, eu nodi'n fanylach yn yr atodiadau i'r cynllun busnes hwn.

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa. Mae gennym Bolisi Rheoli Risg sy'n egluro sut rydym yn rheoli risg, ac rydym yn cynnal cofrestr risg fanwl. Adroddir ar newidiadau i lefel y risg ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Gan fod llawer o risgiau'r gronfa bensiynau y tu hwnt i'n rheolaeth, mae ein trefniadau rheoli risg yn canolbwyntio ar fesur y risg **presennol** yn erbyn risg **targed** y Gronfa y cytunwyd arno (sy'n annhebygol o fod yn sero) a nodi'r dulliau rheoli a chamau ychwanegol y gellir eu rhoi ar waith i helpu i reoli'r risg. Mae'r broses hon o reoli risg yn rhan annatod o nodi'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun busnes hwn.

Ym mhob un o atodiadau'r cynllun busnes hwn sy'n trafod llywodraethu; cyllid, buddsoddiadau a chyllido; gweinyddu a chyfathrebu, rydym wedi cynnwys:

- y risgiau hynny sydd ar hyn o bryd yn cael eu nodi fel rhai coch (hynny yw, risgiau â chanlyniadau difrifol y bernir ei bod yn bosib iddynt ddigwydd), neu'n fwy tebygol na hynny lle nad ydym ni'n cyrraedd y targed, neu
- pan nad oes risgiau coch, y risgiau ble rydym bellach o fodloni'r risg targed ar hyn o bryd

Mae'r risgiau hyn wedi'u cofnodi yn y gofrestr risg, a fydd yn dal i gael ei diweddarw wrth i amgylchiadau newid.

Mae'r **prif risgiau presennol** i'r Gronfa gyflawni ei hamcanion, a'n **meysydd pwyslais allweddol** dros y tair blynedd nesaf i reoli'r risgiau hyn yn cael eu crynhoi yn y tabl a ganlyn:

| Risg Allweddol                                                                                                                                             | Rheolaethau Mewnol sydd ar waith                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Methu â gweithredu newidiadau llywodraethu yn ddigonol / briodol oherwydd ffactorau allanol                                                                | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio ochr yn ochr â PPC i sicrhau pontio esmwyth i'r strwythur newydd arfaethedig ac wrth drosglwyddo'r holl asedau i'r gronfa</li> </ul>                                                                                                                        |
| Methu â chadw Swyddogion y Gronfa sydd â gwybodaeth, sgiliau, cymwysterau a phrofiad                                                                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu ein strwythur llywodraethu ac uwch reoli yn barhaus</li> <li>Sicrhau fod yr holl swyddi allweddol yn cael eu llenwi gydag unigolion priodol sy'n llawn cymhelliad</li> </ul>                                                                                 |
| Dirywiad parhaus mewn marchnadoedd ariannol byd-eang, gan ostwng y sefyllfa gyllido ac arwain at y posibilrwydd o gynnydd yng nghost y cynllun i gyflogwyr | <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro'r sefyllfa gyllido a gwneud newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi, os oes angen, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflogwyr am gost y cynllun, yn ystod ac ar ôl prisiad actiaraidd Mawrth 2025</li> </ul>                                                   |
| Methiant Strategaeth Buddsoddiadau Hirdymor y Gronfa i ddarparu ein huchelgais ac amcanion fel Buddsoddw'r Cyfrifol                                        | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu newidiadau ychwanegol er mwyn cyflawni a monitro ein targedau yng nghyswllt risg yr hinsawdd, a dal i ddatblygu ein dull o ymdrin â stiwardiaeth</li> </ul>                                                                                               |
| Newidiadau deddfwriaethol amrywiol yn cael effaith ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i aelodau a chyflogwyr                                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu'r newidiadau llywodraethu arfaethedig a ragwelir ar gyfer Bil Pensiynau 2025</li> <li>Gweithredu'r datrysiad yn dilyn achos llys McCloud ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol eraill</li> <li>Integreiddio â'r Dangosfwrdd Pensiwn Cenedlaethol</li> </ul> |
| Dealltwriaeth cyflogwyr o'u cyfrifoldebau, mynediad at ddulliau trosglwyddo data effeithlon a dyrannu digon o adnoddau i faterion pensiwn.                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro prosesau newydd ar gyfer cyflogwyr yn ymwneud â safonau gwasanaeth.</li> </ul>                                                                                                                                                                               |

# Cyflawni'r Cynllun Busnes

## Monitro ac Adrodd

Er mwyn canfod a ydym yn cyflawni ein cynllun busnes fel y cytunwyd, byddwn yn:

- monitro cynnydd y prif flaenoriaethau a'r cyllidebau cytunedig yn barhaus o fewn Tîm Rheoli'r Gronfa Bensiynau a Phanel Ymgynghorol y Gronfa Bensiynau
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth gyflawni'r prif flaenoriaethau hyn i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau bob tri mis, i'w rhannu â'r Bwrdd Pensiynau
- yn y diweddariadau chwarterol hyn, tynnu sylw at:
  - unrhyw feysydd lle'r ydym yn rhagori ar neu'n methu â chyflawni'n targedau a'r rhesymau pam, a chanfod unrhyw newidiadau i'r blaenoriaethau arfaethedig
  - unrhyw wariant ychwanegol sylweddol neu danwariant mewn perthynas â'r gyllideb y cytunwyd arni

## Cynllun Hyfforddi

Nod ein Polisi Gwybodaeth a Sgiliau yw sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli gan unigolion sydd â gwybodaeth a sgiliau ar y lefel briodol. Datblygwyd y cynllun hyfforddi canlynol ar gyfer ein Pwyllgor Cronfa Bensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau yn 2025/2026 i helpu i fodloni'r nod honno. Ategir yr hyfforddiant drwy gymryd rhan mewn amryw ddigwyddiadau a chynadleddau allanol, gan gynnwys hyfforddiant Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r cynllun hyfforddi hwn wedi'i ddatblygu yn dilyn trafodaethau gyda'r Pwyllgor.

| Teitl y sesiwn                                             | Cynnwys yr Hyfforddiant                                                                                                        | Amserlen                     |
|------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|
| Egwyddorion Prisiad 2025 a'r Datganiad Strategaeth Gyllido | Hyfforddiant parhaus mewn perthynas â'r strategaeth gyllido, prisiad 2025 a materion rheoli gwarged                            | Mehefin                      |
| Dangosfyrddau Pensiynau                                    | Hyfforddiant parhaus mewn perthynas â'r prosiect Dangosfyrddau Pensiynau a'r gwaith a wneir gan y Gronfa i ateb y gofynion     | Medi                         |
| Strategaeth Fuddsoddi                                      | Hyfforddiant parhaus ar y strategaeth fuddsoddi gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig                                      | Tachwedd                     |
| Rheoliadau buddsoddi                                       | Diweddariad ar y gofynion buddsoddi wedi'u diweddarau sy'n deillio o'r Bil Pensiynau disgwyltiedig a'r canllawiau cysylltiedig | Chwefror (neu i'w gadarnhau) |

| Teitl y sesiwn          | Cynnwys yr Hyfforddiant                                                             | Amserlen                      |
|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|
| Diweddariad Rheoleiddio | Diweddariad ar ofynion rheoliadol sy'n deillio o ddatblygiadau cenedlaethol parhaus | Mawrth<br>(neu i'w gadarnhau) |

Mae'n bosibl y bydd y ddwy sesiwn gyntaf ar Brisiad 2025 a'r Dangosfyrddau Pensiynau yn cael eu cyfnewid i sicrhau bod hyfforddiant Prisiad 2025 yn cael ei ddarparu i gefnogi penderfyniadau'r Pwyllgor.

## Llif Arian a Chyllideb 2025/2026

### Cyllideb Costau Gweithredu 2025/2026

Mae'r tabl isod yn dangos y costau gweithredu a'r costau rheoli buddsoddiadau disgwylidig i gyflawni adran 2025/2026 o'r cynllun busnes. Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â rheoli'r Gronfa yn cael eu codi ar y Gronfa ac nid ar Gyngor Sir y Fflint. Bydd y costau rheoli buddsoddiadau, sef mwyafrif y costau hyn, yn codi a gostwng oherwydd bod y ffioedd yn seiliedig ar werth asedau'r Gronfa, sy'n gallu codi a gostwng.

|                                                          | Gwirionedd<br>dol<br>2023/2024<br>£000oedd | Cyllideb<br>2024/2025<br>£000oedd | Amcangyfrif<br>2024/2025<br>£000oedd | Cyllideb<br>2025/2026<br>£000oedd |
|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------|-----------------------------------|
| <b>Treuliau Llywodraethu</b>                             |                                            |                                   |                                      |                                   |
| Costau Gweithwyr (Uniongyrchol)                          | 366                                        | 442                               | 383                                  | 460                               |
| Costau Cefnogaeth a Gwasanaethau (Yr Awdurdod Gweinyddu) | 22                                         | 15                                | 19                                   | 34                                |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill                        | 96                                         | 78                                | 70                                   | 80                                |
| Hyfforddiant                                             | -                                          | 86                                | 74                                   | 82                                |
| Ffioedd Archwilio                                        | 46                                         | 45                                | 56                                   | 50                                |
| Ffioedd Actiwaraid                                       | 567                                        | 835                               | 862                                  | 985                               |
| Ffioedd Ymgynghorwyr Buddsoddi                           | 1,222                                      | 1,230                             | 1,247                                | 1,325                             |
| Ffioedd Ymgynghorwyr Llywodraethu <sup>a</sup>           | 684                                        | 629                               | 791                                  | 679                               |
| Ffioedd Cyfreithiol                                      | 57                                         | 25                                | 30                                   | 30                                |
| Bwrdd Pensiwn <sup>a</sup>                               | 141                                        | 105                               | 106                                  | 123                               |
| Hyfforddiant y Bwrdd Pensiwn                             | -                                          | 24                                | 20                                   | 25                                |
| Cronni Costau                                            | 228                                        | 218                               | 222                                  | 941                               |
| <b>Cyfanswm Treuliau Llywodraethu</b>                    | <b>3,429</b>                               | <b>3,732</b>                      | <b>3,880</b>                         | <b>4,814</b>                      |
| <b>Treuliau Rheoli Buddsoddiadau</b>                     |                                            |                                   |                                      |                                   |
| Ffioedd Rheolwyr Cronfa                                  | 25,506                                     | 23,068                            | 23,068                               | 27,299                            |
| Ffioedd Cadw                                             | 146                                        | 134                               | 134                                  | 121                               |
| Ffioedd Monitro Perfformiad                              | 46                                         | 49                                | 47                                   | 47                                |
| Costau Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru          | 1,077                                      | 1,187                             | 1,187                                | 1,339                             |
| <b>Cyfanswm Treuliau Rheoli Buddsoddiadau</b>            | <b>26,775</b>                              | <b>24,438</b>                     | <b>24,436</b>                        | <b>28,806</b>                     |

|                                                          | Gwirionedd<br>dol<br>2023/2024<br>£000oedd | Cyllideb<br>2024/2025<br>£000oedd | Amcangyfrif<br>2024/2025<br>£000oedd | Cyllideb<br>2025/2026<br>£000oedd |
|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------|-----------------------------------|
| <b>Treuliau Gweinyddol</b>                               |                                            |                                   |                                      |                                   |
| Costau Gweithwyr (Uniongyrchol) <sup>a</sup>             | 1,549                                      | 1,820                             | 1,730                                | 1,914                             |
| Costau Cefnogaeth a Gwasanaethau (Yr Awdurdod Gweinyddu) | 131                                        | 98                                | 105                                  | 228                               |
| TG <sup>a</sup>                                          | 479                                        | 718                               | 620                                  | 713                               |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill <sup>a</sup>           | 101                                        | 146                               | 109                                  | 140                               |
| <b>Cyfanswm Treuliau Gweinyddol</b>                      | <b>2,260</b>                               | <b>2,782</b>                      | <b>2,564</b>                         | <b>2,995</b>                      |
| <b>Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr</b>                       |                                            |                                   |                                      |                                   |
| Costau Gweithwyr (Uniongyrchol) <sup>a</sup>             | 348                                        | 282                               | 249                                  | 272                               |
| <b>Cyfanswm Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr</b>              | <b>348</b>                                 | <b>282</b>                        | <b>249</b>                           | <b>272</b>                        |
|                                                          |                                            |                                   |                                      |                                   |
| <b>Cyfanswm Costau</b>                                   | <b>32,812</b>                              | <b>31,234</b>                     | <b>31,129</b>                        | <b>36,887</b>                     |

Nodiadau ynglŷn â'r gyllideb arfaethedig:

- 1) Mae eitemau sydd wedi'u marcio ag "a" yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau ychwanegol yn ymwneud â dyfarniad McCloud. Gweler y manylion isod.

| <b>Cyllideb McCloud 2025/2026</b> | <b>£000oedd</b> |
|-----------------------------------|-----------------|
| Costau Gweithwyr (Uniongyrchol)   | 137             |
| Ffioedd Ymgynghorwyr Llywodraethu | 141             |
| Bwrdd Pensiwn                     | 9               |
| TG (Cefnogaeth a Gwasanaethau)    | 50              |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 10              |
| <b>Cyfanswm</b>                   | <b>347</b>      |

- 2) Bydd y costau a ysgwyddir gan y Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr yn cael eu hadennill gan y cyflogwyr sy'n cymryd rhan ac sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy eu cyfraddau cyfraniadau.
- 3) Mae'r costau actiwaraidd, ymgynghori a chynghori'n cynnwys codiadau yn unol â'r contractau ac yn cynnwys gwaith prosiect penodol.
- 4) Mae'r amcangyfrifon uchod yn tybio y bydd chwyddiant cyflogau o 4% lle bo hynny'n briodol.

## Amcanestyniad llif arian ar gyfer 2025/2026 i 2027/2028

Rydym yn monitro faint o arian sy'n mynd i mewn ac allan o'r Gronfa (y llif arian) bob mis i sicrhau bod digon yn y cyfrif banc i dalu holl wariant y gronfa bensiynau yn cynnwys ein hymrwymiaid buddsoddiadau'r farchnad breifat. Mae'r taliadau o'r Gronfa'n fwy na'r cyfraniadau pensiwn gan aelodau a chyflogwyr y cynllun, sy'n golygu bod yn rhaid dod o hyd i'r diffyg o fuddsoddiadau ac arian parod strategol. Mae'r tabl isod yn dangos y llif arian a ragwelir dros y tair blynedd.

|                                            | Amcangyfrif<br>2024/2025<br>£000oedd | Llif Arian<br>2025/2026<br>£000oedd | Llif Arian<br>2026/2027<br>£000oedd | Llif Arian<br>2027/2028<br>£000oedd |
|--------------------------------------------|--------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|
| <b>Arian Agoriadol</b>                     | <b>(37,092)</b>                      | <b>(33,811)</b>                     | <b>(30,000)</b>                     | <b>(30,000)</b>                     |
| <b>Taliadau</b>                            |                                      |                                     |                                     |                                     |
| Pensiynau                                  | 85,608                               | 86,830                              | 89,540                              | 92,322                              |
| Cyfundaliadau a Grantiau Marwolaeth        | 23,435                               | 22,000                              | 22,000                              | 22,000                              |
| Trosglwyddiadau allan                      | 8,492                                | 8,000                               | 7,000                               | 7,000                               |
| Treuliau (ac eithrio buddsoddiadau)        | 6,175                                | 8,330                               | 8,330                               | 8,330                               |
| Treth a Dalwyd                             | 202                                  | 255                                 | 255                                 | 255                                 |
| Gwasanaethau Cefnogi                       | 123                                  | 50                                  | 50                                  | 50                                  |
| <b>Cyfanswm Taliadau</b>                   | <b>124,035</b>                       | <b>125,465</b>                      | <b>127,175</b>                      | <b>129,957</b>                      |
| <b>Incwm</b>                               |                                      |                                     |                                     |                                     |
| Cyfraniadau Cyflogwyr                      | (68,561)                             | (71,304)                            | (71,383)                            | (73,525)                            |
| Cyfraniadau Gweithwyr                      | (22,631)                             | (23,536)                            | (24,242)                            | (24,969)                            |
| Taliadau Diffyg Cyflogwyr                  | 7,577                                | 8,000                               | 10,000                              | 10,000                              |
| Trosglwyddiadau i mewn                     | (11,075)                             | (11,000)                            | (10,000)                            | (10,000)                            |
| Elfen Bensiwn                              | (1,913)                              | (1,500)                             | (1,500)                             | (1,500)                             |
| Incwm                                      | (1,287)                              | (1,000)                             | (1,000)                             | (1,000)                             |
| <b>Cyfanswm Incwm</b>                      | <b>(97,890)</b>                      | <b>(100,340)</b>                    | <b>(98,125)</b>                     | <b>(100,994)</b>                    |
|                                            |                                      |                                     |                                     |                                     |
| <b>Llif Arian Net o Incwm Buddsoddi</b>    | <b>26,145</b>                        | <b>25,125</b>                       | <b>29,050</b>                       | <b>28,963</b>                       |
|                                            |                                      |                                     |                                     |                                     |
| Incwm Buddsoddi                            | (35,024)                             | (37,000)                            | (37,000)                            | (37,000)                            |
| Treuliau Buddsoddi                         | 12,826                               | 13,500                              | 15,500                              | 14,500                              |
| <b>Cyfanswm Net o Fuddsoddiadau Mewnol</b> | <b>3,947</b>                         | <b>1,625</b>                        | <b>7,550</b>                        | <b>7,463</b>                        |
|                                            |                                      |                                     |                                     |                                     |
| <b>Buddsoddiadau Mewnol</b>                |                                      |                                     |                                     |                                     |
| Rhandaliadau                               | 174,941                              | 149,988                             | 154,636                             | 142,405                             |
| Dosbarthiadau                              | (63,507)                             | (68,739)                            | (84,280)                            | (100,714)                           |
| <b>Gwariant Net/ (Incwm)</b>               | <b>111,434</b>                       | <b>81,249</b>                       | <b>70,356</b>                       | <b>41,691</b>                       |
|                                            |                                      |                                     |                                     |                                     |
| <b>Cyfanswm Llif Arian Net</b>             | <b>115,381</b>                       | <b>82,874</b>                       | <b>77,906</b>                       | <b>48,154</b>                       |
|                                            |                                      |                                     |                                     |                                     |
| Asedau buddsoddi ac arian parod strategol  | (112,100)                            | (79,063)                            | (77,906)                            | (48,154)                            |
| <b>Cyfanswm Llif Arian</b>                 | <b>3,281</b>                         | <b>3,811</b>                        | <b>0</b>                            | <b>0</b>                            |
| <b>Arian Terfynol</b>                      | <b>(33,811)</b>                      | <b>(30,000)</b>                     | <b>(30,000)</b>                     | <b>(30,000)</b>                     |

## Manylion Cyswllt

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y cynllun busnes hwn, cysylltwch â:

Email: [pensiynau@siryfflint.gov.uk](mailto:pensiynau@siryfflint.gov.uk) or [buddsoddiadaupensiwn@siryfflint.gov.uk](mailto:buddsoddiadaupensiwn@siryfflint.gov.uk)

## Atodiad Llywodraethu

Mae'r adran hon yn nodi nodau ac amcanion y Gronfa, trosolwg o'n gweithgareddau llywodraethu busnes fel arfer a risgiau allweddol a thasgau llywodraethu'r achos busnes ar gyfer 2025/2026 i 2027/2028.

### Nodau ac Amcanion

Dyma'r nodau ac amcanion o'n Polisi Llywodraethu. Mae amcanion mwy penodol yn y polisiau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu.

- Gweithredu er budd pennaf aelodau a chyflogwyr y Gronfa
- Bod â threfniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso penderfyniadau deallus ar sail cyngor, polisiau a strategaethau priodol
- Sicrhau y rheolir y Gronfa Bensiynau ac y darperir ei gwasanaethau gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arferion gorau
- Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut y bwriadwn eu cyflawni trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus
- Sicrhau y caiff cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau eu gwarchod a'u cynnal

### Busnes fel arfer

- Sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa yn cael eu gwneud yn unol â'r cyfrifoldebau dirprwyedig y cytunwyd arnynt
- Gosod yr agenda, adrodd yn ôl a chyflwyno i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, y Bwrdd Pensiynau Lleol a'r Panel Ymgynghorol, a sicrhau bod y cyrff hyn yn cyflawni eu cyfrifoldebau dirprwyedig
- Gweithredu a monitro cyflawniadau ein meysydd llywodraethu allweddol drwy sicrhau:
  - bod gan y rhai sy'n rheoli'r Gronfa y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol drwy drefnu ac awgrymu sesiynau hyfforddi ac asesu eu hanghenion hyfforddi'n rheolaidd
  - bod y rhai sy'n rheoli'r Gronfa yn gwneud penderfyniadau heb fod buddiannau'n gwrthdaro a'u bod yn nodi unrhyw wrthdaro mewn cofrestr gwrthdaro buddiannau
  - bod fframwaith cadarn ar gyfer nodi a rheoli risgiau, yn cynnwys cynnal cofrestr risg ac adrodd am y risgiau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau bob chwarter

- bod achosion o dor-cyfraith yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau pan fyddant o bwys materol i'r Rheoleiddiwr
  - bod twyll neu lygredigaeth yn cael eu hatal pan fo'n bosibl a phan fyddant yn digwydd, eu bod yn cael eu nodi, eu hymchwilio a'u hadrodd i'r awdurdodau perthnasol
  - ein bod yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau
  - bod trefniadau parhad busnes ar waith a'u bod yn cael eu profi'n rheolaidd
  - bod risgiau seiberdroseddu yn cael eu rheoli'n briodol a sicrhau bod ein data a'n systemau wedi'u diogelu
  - mae'r Gronfa yn annog ac yn galluogi diwylliant teg, amrywiol a chynhwysol yn ei holl agweddau.
- Sicrhau y caiff cynllun busnes y Gronfa, yn cynnwys y gyllideb a'r llif arian, ei ddiwygio'n rheolaidd, ei gytuno a'i gyflawni
  - Sicrhau ein bod yn glynu at ofynion y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol o ran caffael, iechyd a diogelwch a diogelu data
  - Caffael ymgynghorwyr a gwasanaethau eraill a thalu amdanynt
  - Cynorthwyo archwilwyr mewnol ac allanol yn eu swyddogaethau
  - Ateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
  - Cymryd rhan yn y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'i is-grwpiau a Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru: Risg, Caffael, Marchnadoedd Preifat a Buddsoddi Cyfrifol

## Risgiau Llywodraethu

Allwedd:

| Amlygiad i Risg | Agwedd      | Gweithred                                                                                                              |
|-----------------|-------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Coch            | Annerbyniol | Risgiau sydd y tu hwnt i barodrwydd y Gronfa i dderbyn risg.                                                           |
| Oren            | Goddefol    | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg ond nid ar lefel dderbyniol.                                         |
| Melyn           | Digonol     | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg sydd angen eu monitro gan Uwch Reolwyr, os bydd y risg yn gwaethygu. |
| Gwyrdd          | Derbyn      | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg.                                                                     |

| Digwyddiad Risg (gallai hyn ddigwydd)                                                                                                          | Effaith y Risg (... a allai arwain at yr [effaith] ganlynol i'n hamcanion)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Statws Presennol y Risg | Statws Targed y Risg | Camau Pellach a'r Perchennog                                                                                                                                                                                                                                                                |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Mae llwybr llywodraethu i weithredu Adolygiad Pensiynau Trysorlys Ei Fawrhdy yn y pen draw yn arwain at ganlyniad sy'n anfanteisiol i'r Gronfa | <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw cyfrifoldebau cyfreithiol neu ymddiriedol y Gronfa yn cael eu bodloni</li> <li>Nid yw'r Gronfa yn (cael ei gweld fel) un broffesiynol sy'n darparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy</li> <li>Wynebier costau ychwanegol y tu hwnt i'r gyllideb y cytunwyd arni gyda PPC a/neu'r Gronfa</li> <li>Gwasanaethau / canlyniadau PPC Effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth, mae lefelau risg y Gronfa yn amhriodol, nid yw nodau strategol yn cael eu cyflawni / ni ellir eu cyflawni, gan gynnwys amcanion buddsoddi</li> <li>Budd-ddeiliaid y Gronfa (aelodau a/neu gyflogwyr) yn colli ffydd yn y ffordd y mae'r Gronfa yn llywodraethu / rheoli risg</li> </ul> | Coch                    | Melyn                | <ol style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau strwythur y Gronfa ac adolygu is-grwpiau AP (ar gyfer risg buddsoddi)</li> <li>Project Snowdon - Cronfa Bensiynau Clwyd i ymgysylltu â PPC a chronfeydd partner i gael mwy o eglurder ar wneud penderfyniadau (beth, pryd a sut).</li> </ol> |
| Penderfyniadau heb eu gweithredu - problemau adnoddau                                                                                          | <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadaeth/papurau ac ati o ansawdd gwael ar gyfer cyfarfodydd y Gronfa, PB ac AP</li> <li>Rheoli risg ddim yn cael ei gyflawni'n ddigonol</li> <li>Pwysau/disgwyliadau cynyddol ar staff</li> <li>Costau ychwanegol (goramser / cymorth allanol)</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Coch                    | Melyn                | <ol style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau adolygiad strwythur y Gronfa (gan gynnwys ystyried effaith graddfeydd cyflog)</li> <li>Cwblhau gwaith ar gynllunio ar gyfer olyniaeth</li> </ol>                                                                                             |

| Digwyddiad Risg (gallai hyn ddigwydd)                                      | Effaith y Risg (... a allai arwain at yr [effaith] ganlynol i'n hamcanion)                                                                                                                                                                                                                     | Statws Presennol y Risg | Statws Targed y Risg | Camau Pellach a'r Perchennog                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|----------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw cyfrifoldebau cyfreithiol neu ymddiriedol y Gronfa yn cael eu bodloni</li> </ul>                                                                                                                                                                 |                         |                      | <ol style="list-style-type: none"> <li>Cynnal dadansoddiad bwlch gwybodaeth/sgiliau a sicrhau hyfforddiant perthnasol ar gyfer y Tîm Rheoli newydd.</li> <li>Sicrhau bod costau ymgynghorwyr ychwanegol ar gyfer Project Snowdon yn cael eu monitro ar wahân</li> <li>Sicrhau bod cyllidebau'n cael eu diweddarw i gynnwys costau ar gyfer Project Snowdon</li> <li>Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu i helpu'r Gronfa i ddeall effaith adnoddau gwaith Project Snowdon arni</li> </ol> |
| Methu â gweithredu newidiadau llywodraethu yn ddigonol / briodol - allanol | <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw amcanion / cyfrifoldebau cyfreithiol y Gronfa yn cael eu cyflawni neu maent yn cael eu peryglu</li> <li>Mae budd-ddeiliaid y Gronfa (aelodau a/neu gyflogwyr) yn colli ffydd yn y ffordd y mae'r Gronfa yn llywodraethu / rheoli risg</li> </ul> | Coch                    | Melyn                | <ol style="list-style-type: none"> <li>Project Snowdon / Adolygiad Trysorlys Ei Fawrhydi - parhau i fonitro / cymryd rhan mewn datblygiadau cenedlaethol ac ymgysylltu â'r Gronfa a chynrychiolwyr aelodau / cyflogwyr (PL)</li> </ol>                                                                                                                                                                                                                                                          |

| Digwyddiad Risg (gallai hyn ddigwydd) | Effaith y Risg (... a allai arwain at yr [effaith] ganlynol i'n hamcanion) | Statws Presennol y Risg | Statws Targed y Risg | Camau Pellach a'r Perchennog                                                  |
|---------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------|-------------------------------------------------------------------------------|
|                                       |                                                                            |                         |                      | 2. Project Snowdon: Parhau i ymgysylltu â PPC fel rhan o dîm y prosiect. (PL) |

## Tasgau allweddol y Cynllun Busnes

| Cyf | Cam Gweithredu Allweddol:<br>Tasg                                             | Cyfnod 2025/2026 |    |    |    | Blynnyddoedd<br>Diweddarach |               |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------|------------------|----|----|----|-----------------------------|---------------|
|     |                                                                               | C1               | C2 | C3 | C4 | 2026/<br>2027               | 2027/<br>2028 |
| G1  | Strwythur llywodraethu a gofynion adnoddau parhaus                            | x                | x  | x  | x  |                             |               |
| G2  | Adolygu polisiâu cysylltiedig â llywodraethu                                  |                  |    | x  | x  | x                           | x             |
| G3  | Adolygu/tendro cytundebau cyflenwyr allweddol a newidiadau i'r Ddeddf Caffael |                  |    | x  | x  | x                           |               |
| G4  | Penodiadau'r Bwrdd Pensiynau Lleol ac Aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau     |                  |    | x  | x  | x                           | X             |

### G1: Strwythur llywodraethu a gofynion adnoddau parhaus

#### Beth yw hyn?

Mae nifer o faterion parhaus sy'n effeithio (neu a allai effeithio) ar strwythurau llywodraethu a staffio'r Gronfa neu ofynion adnoddau eraill. Yn benodol:

- Mae nifer o'n uwch aelodau staff (gan gynnwys staff yn nhîm rheoli'r gronfa) yn nesáu at oedran ymddeol neu mae ganddynt gynlluniau i ymddeol dros gyfnod y cynllun busnes hwn.
- Mae'r gofyniad i gyflymu'r broses o gronni buddsoddiadau yn dilyn Adolygiad Pensiynau Trysorlys Ei Fawrhidi (a gyflawnir yng Nghymru drwy Project Snowdon PPC) yn debygol o effeithio ar sut mae penderfyniadau'r Gronfa yn cael eu gwneud a'i chyfrifoldebau, ac felly hefyd anghenion adnoddau'r Gronfa.
- Cyflwyno'r Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol, a allai arwain at fod angen adnoddau pellach o fewn y Tîm Gweinyddu Pensiynau.

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r pwynt cyntaf, yn ystod 2024/2025, adolygwyd strwythur tîm rheoli'r Gronfa ac mae camau'n cael eu cymryd i roi'r strwythur newydd ar waith. Cam nesaf y gwaith hwn yw sicrhau bod cynlluniau olyniaeth addas yn eu lle ar gyfer y tîm cyfan, er mwyn sicrhau y gellir llenwi swyddi gydag unigolion sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau ar lefel briodol. Maer gallu i wneud hyn yn dibynnu'n fawr ar ddargadw staff dros amser ar bob lefel yn y tîm, nid tîm rheoli'r gronfa bensiynau yn unig. Gan hynny mae gwaith meincnodi lefelau tâl y tîm hefyd wedi dechrau er mwyn amlygu unrhyw swyddi penodol sydd mewn perygl. Fel rhan o hyn byddwn hefyd yn ystyried yr angen am Bolisi Gweithlu i ddogfennu anghenion gweithlu'r Gronfa (a allai fod yn ofynnol fel rhan o newidiadau llywodraethu Da y Llywodraeth).

Yn ystod 2024/2025 cynlluniwyd hefyd i ffurfioli strwythur dau is-grŵp y Panel Ymgynghorol h.y. y Grŵp Ymgynghorol ar Gyllido a Buddsoddi (FIAG) a Grŵp Gweithrediadau Pensiynau Clwyd (CPOG). Fodd bynnag, o ystyried effaith bosibl Adolygiad Pensiynau'r Trysorlys, byddai'n fwy effeithlon gohirio hyn tan yn ddiweddarach yn 2025/2026 a chynnwys unrhyw newidiadau pellach i strwythurau llywodraethu neu staffio'r Gronfa, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer y dyfodol.

Efallai y bydd angen addasu rhai o'r amserlenni a ddangosir isod yn dibynnu ar amserlen y Llywodraeth ar gyfer yr Adolygiad Pensiynau.

### Amserlenni a Champau

|                                                                                                                                                                                                |                                       |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|
| Sicrhau bod gwerthusiad swyddi yn cael ei gwblhau a swyddogion yn cael eu recriwtio i swyddi rheoli allweddol: eisoes wedi dechrau                                                             | 2025/2026 Ch1                         |
| Ystyried canlyniadau arolwg boddhad staff a gweithredu newidiadau gofynnol                                                                                                                     | 2025/2026 Ch1                         |
| Cynnal trafodaethau gyda'r Pwyllgor i ystyried gofynion y Gronfa o ran adnoddau                                                                                                                | 2025/2026 Ch1                         |
| Cwblhau gwaith meincnodi tâl ar gyfer swyddi yn ôl y gofyn                                                                                                                                     | 2025/2026 Ch1 i Ch2                   |
| Cynnal ymarfer cynllunio olyniaeth ar gyfer strwythur y tîm llawn                                                                                                                              | 2025/2026 Ch1 i Ch4                   |
| Cynnal ail arolwg boddhad staff ar ôl symud                                                                                                                                                    | 2025/2026 Ch3                         |
| Ystyried effaith Adolygiad Pensiynau'r Trysorlys a newidiadau eraill ar ofynion adnoddau'r Gronfa                                                                                              | 2025/2026 Ch2 i Ch4 (amcangyfrifedig) |
| Adolygu strwythur llywodraethu a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys yr angen am is-grwpiau i'r Panel Ymgynghorol, a rhoi ystyriaeth i Adolygiad Pensiynau Trysorlys Ei Fawrhydi | 2025/2026 Ch3 i Ch4 (amcangyfrifedig) |

### Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Fe'i arweinir ar y cyd gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau<sup>2</sup>, gyda mewnbwn gan yr Ymgynghorydd Annibynnol. Mae'r cyllidebau presennol yn cynnwys yr holl gostau disgwylidig.

<sup>2</sup>\*ar gyfer pob cyfeiriad at y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau, bydd y gweithgareddau'n cael eu cyflawni gan y Rheolwr Gweinyddol Pensiynau nes bo swydd y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau wedi'i chytuno a'i llenwi.

## G2: Adolygu polisiau cysylltiedig â llywodraethu

### Beth yw hyn?

Mae gennym sawl polisi sy'n canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu'r Gronfa, ac mae pob un ohonynt yn destun adolygiad sylfaenol, fel arfer o leiaf bob tair blynedd. Y polisiau y disgwylir eu hadolygu yn 2025/2026 yw'r Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfio, a'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth.

Wrth adolygu'r polisiau hyn, bydd angen i ni sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Chod Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau ac unrhyw ofynion deddfwriaethol newydd a chanllawiau statudol. Gan na wyddom yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi unrhyw ddeddfwriaeth newydd, mae'n debygol y bydd y Gronfa'n cynnal adolygiadau llai manwl o'r polisiau hyn, gydag adolygiadau mwy sylweddol yn cael eu cynnal unwaith y bydd y gofynion deddfwriaethol wedi'u cyhoeddi.

Rydym hefyd yn disgwyl i ofynion ar gyfer nifer o bolisiau eraill newid, yn arbennig y polisi gwrthdaro buddiannau. Yn dibynnu ar amser unrhyw newidiadau cenedlaethol, mae'n bosib y bydd angen newid yr amserlenni isod.

### Amserlenni a Chamau

| Polisi                                                  | Yr adolygiad diwethaf | Dyddiad yr adolygiad nesaf   | Amserlenni ar gyfer gwaith adolygu |
|---------------------------------------------------------|-----------------------|------------------------------|------------------------------------|
| Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio            | Tachwedd 2022         | Tachwedd 2025                | 2025/2026 Ch2                      |
| Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth                 | Mawrth 2023           | Mawrth 2026                  | 2025/2026 Ch4                      |
| Strategaeth Seiber                                      | Chwefror 2025         | Mehefin 2026<br>Mehefin 2027 | 2026/2027<br>2027/2028             |
| Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Chwefror | Chwefror 2024         | Chwefror 2027                | 2026/2027                          |
| Polisi Rheoli Risg                                      | Mawrth 2024           | Mawrth 2027                  | 2026/2027                          |
| Polisi Parhad Busnes                                    | Mai 2024              | Mai 2027                     | 2027/2028                          |
| Polisi Gwrthdaro Buddiannau                             | Medi 2024             | Medi 2027                    | 2027/2028                          |

|                                                                                                            |               |               |           |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------|---------------|-----------|
| Gweithdrefn ar gyfer Cofnodi ac Adrodd am Achosion o Dor-Cyfraith Taliadau Hwyr o Gyfraniadau gan Gyflogwr | Chwefror 2025 | Chwefror 2028 | 2027/2028 |
| Polisi Gwybodaeth a Sgiliau                                                                                | Chwefror 2025 | Chwefror 2028 | 2027/2028 |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Disgwylir mai'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau fydd yn arwain hyn yn bennaf ar sail cyngor gan yr Ymgynghorydd Annibynnol. Mae'r gyllideb yn cynnwys costau amcangyfrifedig.

## G3: Adolygu/tendro cytundebau cyflenwyr allweddol a newidiadau i'r Ddeddf Caffael

### Beth yw hyn?

Mae gennym nifer o gontractau â chyflenwyr allweddol sydd angen eu hadolygu a'u caffael yn barhaus, fel a ganlyn:

- Daeth contract actiwari'r Gronfa a'r ymgynghorydd buddion i derfyn ar 31 Mawrth 2025 i ddechrau, ond cafodd ei ymestyn gan y Pwyllgor am 2 flynedd tan 31 Mawrth 2027.
- Mae angen profi addasrwydd Meddalwedd Gweinyddu'r Gronfa ym mis Chwefror 2028. Mae contract ar wahân gyda'r un darparwr ar gyfer Darparwr Gwasanaeth Integredig y Dangosfwrdd Pensiynau, sydd i'w adolygu ar 31 Rhagfyr 2029. Gellir ymestyn hwn am gyfnod o 3 blynedd arall.
- Disgwylir adolygiad cychwynnol o gontract ymgynghoriaeth buddsoddi'r Gronfa ar 31 Mawrth 2030. Gellir ymestyn hwn am gyfnod o 2 flynedd arall.
- Disgwylir adolygiad cychwynnol o gontract ymgynghorydd annibynnol y Gronfa ac aelod annibynnol y Bwrdd Pensiynau ar 31 Mawrth 2030, sydd y tu allan i gyfnod y cynllun busnes hwn. Gellir ymestyn hwn am gyfnod o 3 blynedd a 2 flynedd arall.

Mae Deddf Caffael newydd a disgwylir i is-ddeddfwriaeth ddod i rym yn ystod 2025.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn deall y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith ac yn ystyried eu heffaith ar unrhyw gaffael fyddwn ni'n ei wneud yn y dyfodol.

## Amserlenni a Charnau

|                                                                 |                     |
|-----------------------------------------------------------------|---------------------|
| Cynnal tendr ar gyfer Actiwari'r Gronfa ac ymgynghorydd Buddion | 2026/2027 Ch3 i Ch4 |
| Cynnal prawf addasrwydd ar gyfer Meddalwedd Gweinyddu'r Gronfa  | 2027/2028           |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Bydd y tendr ar gyfer Actiwari'r Gronfa a'r ymgynghorydd Buddion yn cael ei arwain ar y cyd gan aelodau amrywiol o'r Uwch Dîm Rheoli o fewn y gyllideb bresennol. Bydd y profion addasrwydd ar gyfer Meddalwedd Gweinyddu'r Gronfa yn cael eu harwain gan y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau.

## G4: Penodi Aelodau'r Bwrdd Pensiynau Lleol a Phwyllgor y Gronfa Bensiynau

### Beth yw hyn?

Mae 5 aelod ar y Bwrdd Pensiynau: 2 gynrychiolydd cyflogwyr, 2 gynrychiolydd aelodau ac 1 aelod annibynnol. Penodir aelodau gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar ôl cwblhau proses ddethol.

Penodir cynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau'r cynllun i'r **Bwrdd Pensiwn** am gyfnod o dair blynedd. Gellir ymestyn y cyfnod hwnnw hyd at bum mlynedd. Adolygir y penodiadau presennol fel a ganlyn:

- Cynrychiolydd aelodau'r Cynllun (heb fod yn undeb llafur): Chwefror 2025 (pwynt pum mlynedd)
- Cynrychiolydd cyflogwyr y Cynllun: Gorffennaf 2025 (pwynt pum mlynedd)
- Cynrychiolydd aelodau'r Cynllun (undeb llafur): Hydref 2025 (pwynt tair blynedd)
- Cynrychiolydd cyflogwyr y Cynllun: Rhagfyr 2026 (pwynt tair blynedd)

Hefyd, daw penodiad Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn i ben ar 31 Mawrth 2025 felly cynhelir adolygiad.

Mae naw aelod ar Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, mae pump ohonynt yn Gyngorwyr Cyngor Sir y Fflint ac mae'r gweddill yn aelodau cyfetholedig. Mae'r aelodau cyfetholedig yn cynnwys un Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, un Cynghorydd o Gyngor Sir Ddinbych a dau aelod cynrychioladol, un ar gyfer cyflogwyr eraill y Cynllun ac un ar gyfer aelodau'r Cynllun yn y Gronfa.

Penodir y pum Cynghorydd o Sir y Fflint bob blwyddyn, ac mae'r Cynghorwyr o Wrecsam a Sir Ddinbych yn cael eu penodi nes yr etholiad llywodraeth leol gyffredin nesaf. Gellir ailbenodi'r ddau grŵp am gyfnodau pellach.

Penodir yr aelodau cynrychioladol (ar gyfer cyflogwyr eraill y cynllun ac aelodau'r cynllun) i **Bwyllgor y Gronfa Bensiynau** am gyfnod nad yw'n hwy na chwe blynedd, ond gellir eu

hailbenodi am gyfnodau pellach. Penodwyd yr aelodau cynrychioladol presennol ym mis Gorffennaf 2020, felly bydd angen adolygu eu penodiadau erbyn mis Gorffennaf 2026.

### Amserlenni a Chantau

|                                                                                                               |                     |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Adolygu cynrychiolwyr cyflogwyr y cynllun ar y Bwrdd Pensiynau                                                | 2025/2026 Ch1 & Ch2 |
| Adolygu cynrychiolydd cyflogwyr y cynllun ar y Bwrdd Pensiynau                                                | 2026/2027           |
| Adolygu aelodau cynrychioliadol Pwyllgor y Gronfa Bensiynau (cyflogwyr eraill y cynllun ac aelodau'r cynllun) | 2026/2027           |
| Adolygu cynrychiolwyr cynlluniau sy'n aelodau o'r Bwrdd Pensiynau (boed yn undebau llafur neu ddim)           | 2027/2028           |

### Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Disgwylir mai Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd fydd yn ymdrin â hyn yn bennaf ar sail cyngor yr Annibynnol Chadeirydd y Bwrdd Pensiynau. Telir yr holl gostau o'r gyllideb bresennol.

## Atodiad Cyllid, Buddsoddiadau a Chyllido

Yn yr adran hon, nodir nodau ac amcanion cyllido a buddsoddi'r Gronfa, trosolwg o'n gweithgareddau a risgiau allweddol cyllid, buddsoddi a chyllido busnes fel arfer a thasgau cynllun busnes cyllid, buddsoddi a chyllido ar gyfer 2025/2026 i 2027/2028.

### Nodau ac Amcanion

- Cynnal asedau sy'n hafal i 100% o rwymedigaethau, gan gadw o fewn terfynau risg rhesymol.
- Pennu gofynion o ran cyfraniadau cyflogwr, gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a chryfder cyfamod cyflogwr, gyda'r nod o gynnal gofyniad cyfraniad y cyflogwr mor rhagweladwy â phosibl
- Gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr, anelu at ddigon o elw dros ben ar fuddsoddiadau o gymharu â'r twf mewn rhwymedigaethau
- Taro'r cydbwysedd priodol rhwng perfformiad cyson hirdymor buddsoddiadau a'r amcanion cyllido trwy ddull gweithredu integredig rhwng y strategaethau buddsoddi a chyllido
- Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol drwy fabwysiadu amcanion cyllido penodol i bob cyflogwr
- Sicrhau y gellir bodloni gwariant arian parod net os/pan gyfyd yr angen
- Sicrhau bod gan y Gronfa hylifedd digonol ar gyfer holl anghenion llif arian (yn enwedig talu pensiynau, bodloni ymrwymadau'r farchnad breifat, hylifedd rheoli risg)
- Cadw swm dyledion nad oes modd eu hadennill mor isel â phosib wrth derfynu cyfranogiad cyflogwyr
- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynnaladwyedd
- Sicrhau bod strategaeth fuddsoddi'r Gronfa'n cyd-fynd â'r pontio i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2045, gan allu cyflawni ein dychweliadau buddsoddi gofynnol ar gyfer lefel risg dderbyniol ar yr un pryd.
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynnaladwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith
- Defnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer buddsoddi asedau'r Gronfa, cyn belled â'i bod yn gallu bodloni gofynion strategaeth fuddsoddi ac amcanion y Gronfa (gan gynnwys gofynion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu), o fewn costau hirdymor derbyniol i gyflawni'r buddion a ddisgwylir a rheoliadau'r llywodraeth.

### Busnes fel arfer

#### Cyllid

- Paratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Gronfa
- Cwblhau'r Cyfrifon Blynyddol a chynorthwyo archwilwyr allanol

- Paratoi a monitro'r Gyllideb Flynyddol bob tri mis
- Llenwi ffurflenni statudol ac anstatudol yn ôl yr angen
- Cysoni trafodion banc yn fisol
- Rheoli'r trysorlys a llif arian yn chwarterol
- Monitro incwm a gwariant yn fisol, yn cynnwys cyfraniadau cyflogwyr ac aelodau'r cynllun
- Anfonebu cyflogwyr bob tri mis am straen pensiynau a blynyddoedd ychwanegol.

## Cyllid a Rheoli Risg

- Cytuno ar y strategaeth gyllido gyda'r actiwari bob tair blynedd, ymgynghori â chyflogwyr a monitro ei phriodoldeb yn flynyddol
- Cynorthwyo'r actiwari gyda'r Prisiad Actiwaraidd Teirblwydd drwy ddarparu data'r aelodaeth a chyflwyno canlyniadau ac esboniadau i gyflogwyr am gyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol a thaliadau i adennill diffygion
- Drwy'r Actiwari, trefnu'r data sy'n ofynnol gan Adran Actiwari'r Llywodraeth
- Monitro sefyllfaoedd cyllido a chyfamodau'r cyflogwyr, gan gynnwys eu gallu i dalu cyfraniadau, a rheoli unrhyw gyflogwyr sy'n dymuno ymuno â'r Gronfa neu ymadael â hi.
- Monitro ac adrodd yn fisol ar sefyllfa gyllid y Gronfa a gweithredu'r strategaeth arian parod a rheoli risg ("Llwybr Hedfan") gyda 'phrofion iechyd' blynyddol
- Monitro llif arian y Gronfa yn barhaus, gan ystyried ymrwymadau'r gyflogres ac ymrwymadau tynnu i lawr o'r farchnad breifat
- Dadansoddiad hylifedd parhaus i sicrhau y gellir bodloni galwadau cyfalaf posibl yn y dyfodol
- Dadansoddi cyfraniadau a risg fel rhan o'r adolygiad actiwaraidd a'r strategaeth fuddsoddi bob tair blynedd, neu'n amlach os oes angen

## Buddsoddiadau

- Cynnal adolygiad sylfaenol o'r strategaeth fuddsoddi bob tair blynedd, neu'n amlach os ystyrir bod hynny'n briodol (e.e. oherwydd newidiadau sylweddol yn y marchnadoedd neu gyfleoedd buddsoddi newydd)
- Penodi rheolwyr, eu monitro a'u diswyddo, yn unol â chyd-destun cyfuno asedau CPLIL
- Monitro ac adrodd yn chwarterol ar berfformiad buddsoddiadau
- Gweithio gyda chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol i gyfuno buddsoddiadau drwy ein swyddogaeth yn y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion
- Monitro ac adrodd yn fisol ar sefyllfa gyllid y Gronfa a gweithredu ein strategaeth arian parod a rheoli risg ("Llwybr Hedfan") gyda 'phrofion iechyd' blynyddol
- Monitro'r penderfyniadau dyrannu asedau tactegol a'u gweithredu'n fisol
- Datblygu agwedd y Gronfa at Fuddsoddi Cyfrifol, ei gweithredu a'i monitro
- Adnabod buddsoddiadau cynaliadwy sydd â'r nod o gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd neu gymdeithas

- Trawsnewid strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn unol â'i thargedau sero net
- Monitro buddsoddiadau'r Gronfa mewn marchnadoedd preifat yn cynnwys cynllunio ymrwymadau
- Sicrhau y datgelir y costau'n llawn yn unol â Chod Tryloywder Buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Cydweithio â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau ei bod yn gallu cefnogi'r Gronfa wrth gyflawni ei gofynion a chredoau ei hun ynglŷn â Buddsoddi Cyfrifol a Newid Hinsawdd
- Adolygu'r ddarpariaeth Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn gyson i sicrhau ei bod yn dal yn briodol
- Adrodd yn flynyddol ar stiwardiaeth, hyd at ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth, a'i gyflwyno i'r Cyngor Adrodd Ariannol
- Dadansoddiad hinsawdd a natur blynyddol (gan gynnwys dadansoddiad rheolwyr marchnad breifat ar gyfer hinsawdd) sy'n bwydo i'r gofyniad adrodd
- Adrodd yn flynyddol i'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol, hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, 31 Mawrth

## Risgiau

### Allwedd:

| Amlygiad i Risg | Agwedd      | Gweithred                                                                                                              |
|-----------------|-------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Coch            | Annerbyniol | Risgiau sydd y tu hwnt i barodrwydd y Gronfa i dderbyn risg.                                                           |
| Oren            | Goddefol    | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg ond nid ar lefel dderbyniol.                                         |
| Melyn           | Digonol     | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg sydd angen eu monitro gan Uwch Reolwyr, os bydd y risg yn gwaethygu. |
| Gwyrdd          | Derbyn      | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg.                                                                     |

| Digwyddiad Risg (gallai hyn ddigwydd)                                                    | Effaith y Risg (... a allai arwain at yr [effaith] ganlynol i'n hamcanion)                   | Statws Presennol y Risg | Statws Targed y Risg | Camau Pellach a'r Perchennog                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nid yw'r amcanion a/neu strategaethau buddsoddi a/neu gyllido yn addas at y diben mwyach | Cynnydd mewn diffygion / gostyngiad mewn gwarged yn cynyddu gofynion cyfraniadau yn arbennig | Coch                    | Melyn                | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ystyried yn yr Adolygiad nesaf o'r Strategaeth Fuddsoddi (PL)</li> <li>2. Caiff amcanion hefyd eu hystyried fel rhan o brisiad actiwaraid 2025 (PL)</li> <li>3. Project Snowdon - Swyddogion ac ymgynghorwyr i gymryd rhan mewn prosiect trawsnewid PPC yn ymwneud ag adolygiad pensiynau (PL)</li> </ol> |

## Tasgau allweddol y Cynllun Busnes

| Cyf | Cam Gweithredu Allweddol: Tasg                                         | Cyfnod 2025/2026 |     |     |     | Blynyddoedd Diweddarach |           |
|-----|------------------------------------------------------------------------|------------------|-----|-----|-----|-------------------------|-----------|
|     |                                                                        | Ch1              | Ch2 | Ch3 | Ch4 | 2026/2027               | 2027/2028 |
| F1  | Review and implementation of objectives (Funding, Risk and Investment) | x                | x   | x   | x   | x                       | x         |
| F2  | Project Snowdon                                                        | x                | x   | x   | x   |                         |           |
| F3  | Triennial Actuarial Valuation and associated tasks                     | x                | x   | x   | x   |                         |           |
| F4  | Adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi a'i gweithredu                         |                  | x   | x   | x   |                         |           |
| F5  | Buddsoddiad Cyfrifol                                                   | x                | x   | x   | x   |                         |           |
| F6  | Adolygiad Cyllid Interim                                               |                  |     |     |     |                         | x         |
| F7  | Gweithredu System Ariannol Newydd                                      | x                | x   | x   | x   | x                       | x         |

### F1: Adolygu a gweithredu amcanion (Cyllid, Risg a Buddsoddi)

Beth yw hyn?

- Mae'r Llywodraeth Ganolog, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r Trysorlys wedi ymgynghori ar newidiadau sylweddol i'r ffordd y bydd y Gronfa'n gweithredu ac yn rheoli ei buddsoddiadau. Rhagwelir y gallai fod nifer o newidiadau arwyddocaol a fydd yn cael effaith sylweddol ar sut y gall y Pwyllgor wneud penderfyniadau am fuddsoddi a mynd ati i fuddsoddi'r asedau. Adolygu a dogfennu'r holl amcanion (mynegi holl ofynion y Gronfa yn glir) gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - Adolygu amcanion cyllid, risg a buddsoddi
  - Adolygu gyda'r Actiwari a'r Cynghorydd Risg Strategol, gan brofi cyfraniadau yng nghyd-destun yr amcanion a rheoli gwarded
  - Adolygu Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi (ISS)
  - Adolygu Datganiad y Strategaeth Gyllido (FSS)
  - Adolygu'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Hyfforddi'r Pwyllgor Pensiynau ar ganlyniadau ymgynghori a gosod amcanion ar gyfer y gronfa

- Ystyried fframwaith ar gyfer adolygu amcanion yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau newydd wedi'u cyhoeddi
- Cynllunio ar gyfer trosglwyddo asedau etifeddol (hylif ac anhylif) i'r gronfa

## Amserlenni a Chantau

Ni wyddom beth yn union fydd yr amserlenni a'r gwaith gofynnol ar hyn o bryd, ond rydym yn rhagweld gwaith parhaus trwy gydol y flwyddyn ar ofynion cronni asedau. Bydd yr adolygiad o amcanion a chyfraniadau yn cael ei wneud ar y cyd ag adolygiad o'r strategaeth brisio a buddsoddi (F3 ac F4 isod).

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd fydd yn arwain y gwaith, gan weithio gydag Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa. Mae costau amcangyfrifedig yr Ymgynghorydd Buddsoddi ar gyfer yr ymarfer hwn wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2025/2026.

## F2: Project Snowdon

### Beth yw hyn?

Lansiodd y Llywodraeth ei hadolygiad o Bensiynau ym mis Gorffennaf 2024, gan ryddhau ei hadroddiad interim ar Gam 1 yr adolygiad hwn ym mis Tachwedd 2024. Yn dilyn yr adborth o Gam 1 lansiodd y Llywodraeth yr Ymgynghoriad "CPLIL Parod at y Dyfodol". Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig nifer o newidiadau sy'n cynnwys gofynion ar gyfer:

- Cronfeydd CPLIL i gyfuno eu holl asedau (gan gynnwys asedau anhylif etifeddol) i gronfeydd a reoleiddir gan yr FCA erbyn 31 Mawrth 2026.
- Cronfeydd i dderbyn eu "cyngor buddsoddi prifswm" o'u cronfa asedau
- Cronfeydd i ddatblygu galluedd rheoli asedau mewnol
- Cronfeydd i gyflawni diwydrwydd dyladwy a phenderfyniadau ar fuddsoddiadau lleol a gynigir gan y Cronfeydd
- Roedd nifer o newidiadau llywodraethu yn deillio'n bennaf o'r prosiect Llywodraethu Da

Bydd angen i'r Gronfa weithio'n agos gyda'u cronfa asedau, Partneriaeth Pensiwn Cymru, i fodloni'r gofynion hyn. Mae'r amserlen ar gyfer y newid hwn yn hynod heriol ac mae angen llawer iawn o waith i fodloni gofyniad 31 Mawrth 2026.

Hefyd, nid oes gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau awdurdod o dan gyfansoddiad y Cyngor i gytuno ar newidiadau i Gytundeb Rhwng Awdurdodau PPC, ac felly bydd angen i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cytundeb i ganiatáu model cronni newydd gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

## Amserlenni a Chatau

|                                                                                                                         |                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|
| Monitro'r gofynion disgwylidiedig ac ymateb i unrhyw ymgynghoriadau pellach ynghylch y rheoliadau / canllawiau statudol | 2025/2026 Ch1 i Ch2              |
| Gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru i ddatblygu model cronni newydd a fydd yn gallu bodloni amcanion y Gronfa     | 2025/2026 Ch1 i Ch4              |
| Sicrhau bod unrhyw newidiadau i Gytundeb Rhwng Awdurdodau PPC yn cael eu cytuno gan y Cyngor llawn                      | 2025/26 Ch2<br>(amcangyfrifedig) |
| Trosglwyddo'r holl asedau hylifol sy'n weddill i'r gronfa                                                               | 2025/26 Ch4<br>(amcangyfrifedig) |
| Trosglwyddo rheolaeth asedau anhylif i'r gronfa                                                                         | 2025/26 Ch4<br>(amcangyfrifedig) |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd fydd yn arwain y gwaith, gan weithio gydag Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa. Mae costau amcangyfrifedig yr Ymgynghorydd Buddsoddi ar gyfer yr ymarfer hwn wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2025/2026.

## F3: Prisiad Actiwaraid Teirblwydd a thasgau cysylltiedig

### Beth yw hyn?

Bwrriedir cynnal prisiad actiwaraid ffurfiol teirblwydd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2025. Bydd yn ystyried sefyllfa diddyledrwydd y Gronfa a metrigau ariannol eraill, ac mae hefyd yn un o'r gofynion cyfreithiol dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'n pennu cyfraddau cyfraniadau ein cyflogwyr i dalu costau buddion, gan gynnwys effaith unrhyw ddiffyg neu warged. Caiff yr agweddau hyn eu llywio gan yr hyn sy'n gynwysedig yn ein Datganiad o'r Strategaeth Gyllido ar wahân, sy'n destun adolygiad ac ymgynghoriad â chyflogwyr cyn i'r Pwyllgor ei gymeradwyo a bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth canllawiau'r Datganiad Strategaeth Gyllido wedi'u diweddarau a gyhoeddwyd yn Chwarter 4 2024/2025. Yn benodol, bydd polisi rheoli gwarged penodol yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cydbwysedd rhwng cynaliadwyedd cyfraniadau a fforddiadwyedd cyflogwyr.

Bydd y prisiad hefyd yn cynnwys ystyried effaith bosibl newid hinsawdd o ran buddsoddiad cyffredinol, cyllid ac agweddau risg demograffig yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ynghyd â pha mor aml y cynhelir adolygiadau.

Ystyrir y prisiad ochr yn ochr â fframwaith rheoli risg ein cyflogwyr. Bydd gofyn i'n cyflogwyr ddarparu datganiadau ariannol a thystiolaeth o fforddiadwyedd a sicrwydd cyn y gellir cytuno ar gyfraniadau.

Bydd yr ymarfer hefyd yn cynnwys rhagamcanion llif arian (o daliadau buddion i aelodau yn y dyfodol a chyfraniadau derbyniadwy gan aelodau a chyflogwyr yn y dyfodol) i fewnbynnu i'r fframwaith polisi Rheoli Arian Parod a Risg.

## Amserlenni a Chantau

|                                                                                |                     |
|--------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Dyddiad dod i rym                                                              | 31 Mawrth 2025      |
| Dadansoddiad Demograffig gan gynnwys effaith Newid Hinsawdd                    | 2025/2026 Ch1       |
| Canlyniadau cychwynnol i'r Gronfa gyfan                                        | 2025/2026 Ch2       |
| Canlyniadau Cyflogwyr Unigol ac ymgynghoriad FSS                               | 2025/2026 Ch2 & Ch3 |
| Cymeradwyaeth derfynol yr FSS                                                  | 2025/2026 Ch4       |
| Dyddiad cau ar gyfer pennu'r holl gyfraniadau a chymeradwyo'r adroddiad prisio | 31 Mawrth 2026      |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Bydd yr ymarfer yn cael ei arwain gan Gyfrifydd y Gronfa ac yn cael ei gyflawni gan Actiwari'r Gronfa. Bydd yn pennu gofynion cyfrannu'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan o 1 Ebrill 2026 ac ymgynghorir yn ffurfiol â chyflogwyr ar y strategaeth gyllido fel rhan o'r broses. Gan ei fod yn ddarn mawr o waith i'r Gronfa, bydd gofyn neilltuo adnoddau sylweddol gan y timau Gweinyddu a Chyllid gydol 2025/26. Mae costau amcangyfrifedig Actiwari'r Gronfa ar gyfer yr ymarfer hwn wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2025/2026.

## F4: Adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi a'i Rhoi ar Waith

### Beth yw hyn?

Mae hyn yn ymwneud â'r adolygiad teirblwydd o'r strategaeth fuddsoddi a fydd yn cael ei gynnal ar y cyd â'r prisiad actiwaraid teirblwydd.

Cynhelir adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi er mwyn sefydlu strategaeth fuddsoddi hirdymor sy'n cyflawni amcanion y Gronfa. Strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yw'r penderfyniad pwysicaf a mwyaf dylanwadol y mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ei wneud, gyda goblygiadau posibl i'r prisiad actiwaraid a Datganiad y Strategaeth Gyllido. Drwy gydol y broses bydd uchelgeisiau ac amcanion buddsoddi Cyfrifol y Gronfa yn cael eu hymgorffori. Unwaith y cytunir arnynt, disgwylir i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith dros amser er mwyn rheoli costau pontio a hylifedd.

## Amserlenni a Chatau

|                                               |                      |
|-----------------------------------------------|----------------------|
| Adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi               | 2025/2026 Ch2 & Ch3  |
| Cytuno ar unrhyw newidiadau a'u rhoi ar waith | 2025/2026 Ch4 ymlaen |

### Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Swyddog Buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd fydd yn arwain y gwaith, gan weithio gydag Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa. Bydd amcangyfrifedig y costau'n cael ei gynnwys yng nghyllideb 2025/2026 o law.

## F5: Buddsoddi Cyfrifol

### Beth yw hyn?

Mae Buddsoddi Cyfrifol, yn enwedig Newid Hinsawdd, wedi'i nodi fel risg buddsoddi sylweddol gan y Pwyllgor yn ogystal â chyflwyno ystod eang o gyfleoedd buddsoddi. Mae'r cynllun Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys: adolygiad o'r polisi gwaharddiadau, gan ddefnyddio'r fframwaith gwaharddiadau a ddatblygwyd gan y Pwyllgor mewn blynyddoedd blaenorol, yn benodol i gwmpasu rhestr OHCHR y Cenhedloedd Unedig ac i ystyried effaith gynyddol polisi gwaharddiadau'r Gronfa. Adolygu a phennu amcanion Buddsoddi Cyfrifol penodol ar gyfer PPC, stiwardiaeth ac ymgysylltu gweithredol gan ddefnyddio Rhestr Targedau Ymgysylltu â'r Hinsawdd y Gronfa. Dadansoddiad Senario Hinsawdd a fydd yn rhan o waith prisiad actiwaraid a strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, i sicrhau bod agwedd holistaidd tuag at Fuddsoddi Cyfrifol yn cael ei hymgorffori. Hyfforddiant ar bynciau Buddsoddi Cyfrifol yn ôl y gofyn.

## Amserlenni a Chatau

|                                       |                     |
|---------------------------------------|---------------------|
| Adolygu polisi gwaharddiadau'r Gronfa | 2025/2026 Ch1 & Ch2 |
| Stiwardiaeth weithredol               | 2025/2026 Ch3 & Ch4 |
| Hyfforddiant                          | Yn ôl yr angen.     |

### Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Swyddog Buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd fydd yn arwain y gwaith, gan weithio gydag Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa. Bydd amcangyfrifedig y costau'n cael ei gynnwys yng nghyllideb 2025/2026 o law.

## F6: Adolygiad Cyllid Interim

### Beth yw hyn?

Cyn cynnal prisiad actiwaraid 2028, bydd yr Actiwari'n asesu'r sefyllfa gyllido fel y mae ar 31 Mawrth 2027 er mwyn paratoi'r Gronfa a chyflogwyr at y canlyniadau cyfraniadau posib a ddeillia o brisiad 2028.

Cynhelir adolygiad interim 2027 yn yr un ffordd â phroses y prisiad actiwaraid llawn. Bydd yn caniatáu i ni ddiweddarau'r gofynion cyfrannu i rai cyflogwyr pan fo angen a phan fydd hyn yn dderbyniol dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Defnyddir hyn i lywio polisiau eraill hefyd e.e. rhagdybiaethau (yn cynnwys newidiadau i ddisgwyliad oes) i'w defnyddio pan fydd cyflogwyr yn gadael y Gronfa.

Bydd y dadansoddiad hwn yn cynorthwyo'r Gronfa i ddeall cyllidebau a fforddiadwyedd cyfraniadau'r cyflogwyr er mwyn gallu datblygu cynlluniau ar sail y sefyllfa gyllido bresennol a'r rhagolygon ar gyfer elw. Bydd y prisiad interim a'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys trafodaethau gyda'n cyflogwyr ac yn enwedig y Grŵp Llywio gyda chynrychiolwyr o Gyngorau mawr. Bydd hefyd yn cynnwys adolygu ansawdd data i fwydo i drafodaethau prisiad 2025.

### Amserlenni a Chantau

|                                                                                                |           |
|------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Ymgysylltiad cychwynnol â chyflogwyr i asesu fforddiadwyedd a'r rhagolygon ar gyfer y gyllideb | 2027/2028 |
| Cynnal adolygiad cyllido interim (yn cynnwys ansawdd data)                                     | 2027/2028 |
| Cyhoeddi'r canlyniadau a thrafod â chyflogwyr                                                  | 2027/2028 |

### Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Cyfrifydd y Gronfa fydd yn arwain y gwaith hwn. Actiwari'r Gronfa fydd yn ei gynnal a bydd timau Cyllid a Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd yn cyfrannu hefyd. Caniatwyd ar gyfer yr adolygiad interim llawn a'r tasgau cysylltiedig yng nghyllideb 2027/2028.

## F7: Gweithredu System Ariannol Newydd

### Beth yw hyn?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno amnewid ei becyn meddalwedd ariannol. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd hefyd yn defnyddio'r meddalwedd yma ar gyfer ei holl brosesau cyfrifeg, yn cynnwys prosesu taliadau ac anfonebau.

Bydd y broses gaffael ar gyfer y system ariannol newydd yn mynd drwy Fframwaith o'r enw CCS BOS2. Mae'r cam cyntaf yn golygu llunio gofynion y Cyngor a'r Gronfa a fydd yn cael eu rhoi i gyflenwyr yn rhan o'r broses gaffael. Yna bydd darpar gyflenwyr yn cael eu gwerthuso

(rhwng Awst - Medi 2025), gyda'r bwriad o arwyddo contract gyda'r darparwr system newydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr, a'i weithredu yn 2026 a'i fod yn fyw yn fuan yn 2027.

Mae prif ffocws y broses gaffael yma ar systemau ariannol craidd; Cyfrifon Taladwy a Derbyniadwy, Cyfrifyfr Cyffredinol a'r system archebu O Brynu Hyd Dalu (P2P). Fe fyddant hefyd yn dymuno amnewid y meddalwedd monitro cyllideb a rheoli arian gyda'r un system gobeithio. Fe fydd y system sy'n cael ei ystyried yn cael ei gynnal ac ni fydd yn defnyddio gweinyddwyr ar y safle, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd y gost flynyddol yn codi, ond nid rhyw lawer.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor ac mae'r Rheolwr Cyllid: Cyllid a Chyfrifyddu yn cynrychioli Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae rhai o brif ofynion ar gyfer y Gronfa yn cynnwys:

- rhyngwynebu esmwyth gyda system weinyddu Altair (yn cynnwys ar gyfer taliadau pensiwn, budd-daliadau a thaliadau eraill),
- mynediad a gosod a monitro cyllideb yn hawdd, a
- gallu y system newydd i gysylltu taliadau sy'n mynd allan yn uniongyrchol i gyfrif banc Cronfa Bensiynau Clwyd, rhywbeth nad yw'r system bresennol yn gallu gwneud.

## Graddfeydd Amser a Chantau

|                                                                                         |                              |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|
| Dogfennu gofynion a manylion system y Gronfa i gael eu cynnwys yn nogfennaeth caffael   | 2025/2026 Ch1                |
| Cymryd rhan yn y broses gaffael er mwyn sicrhau bod gofynion y Gronfa'n cael eu bodloni | 2025/2026 Ch2                |
| Gweithredu yn cynnwys profi                                                             | 2025/2026 Ch3 i<br>2026/2027 |
| Mynd yn fyw gyda'r system ariannol newydd                                               | 2026/2027 i<br>2027/2028     |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan y Rheolwr Cyllid: Cyllid a Chyfrifeg, gan weithio gyda gweddill y Tîm Rheoli a swyddogion eraill y Gronfa. Efallai y bydd rhai o ymgynghorwyr y Gronfa yn cymryd rhan, ond nid yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yng nghyllideb 2025/2026 presennol, ac nid oes disgwyl i hyn fod yn faterol ac felly, disgwylir y gellir amsugno hyn yn y gyllideb bresennol. Ni ragwelir y bydd yna gostau pellach yn 2025/2026. Serch hynny, yn 2026/2027 a blynyddoedd i ddod, disgwylir bydd costau system ychwanegol yn cael eu codi ar y Gronfa gan y Cyngor allai gynnwys costau gweithredu prosiect a chyfnod o gynnal yr hen system a'r system newydd ar yr un pryd.

## Atodiad Gweinyddu a Chyfathrebu (yn cynnwys y Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr)

Yn yr adran hon, nodir nodau ac amcanion gweinyddu a chyfathrebu'r Gronfa, trosolwg o'n gweithgareddau busnes fel arfer gweinyddu a chyfathrebu a risgiau allweddol a thasgau gweinyddu a chyfathrebu'r achos busnes ar gyfer 2025/2026 i 2027/2028.

### Nodau ac Amcanion Gweinyddu

- Darparu gwasanaeth gweinyddol i fudd-ddeiliaid y Gronfa, sy'n raenus, proffesiynol, rhagweithiol, amserol, ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid
- Gweinyddu'r Gronfa mewn ffordd effeithlon ac effeithiol o ran cost gan ddefnyddio technoleg yn briodol i gael gwerth am arian
- Sicrhau bod cyflogwyr y Gronfa yn meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau dan reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol<sup>3</sup> a'r modd y cyflawnir swyddogaethau gweinyddu'r Gronfa
- Sicrhau y telir y buddion cywir i'r bobl gywir ar yr amser iawn, ac y cesglir yr incwm cywir ganddyn nhw yn yr un modd
- Cynnal cofnodion cywir a sicrhau bod data yn cael ei ddiogelu a chyda defnydd awdurdodedig yn unig

### Nodau ac Amcanion Cyfathrebu

- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cynllun a darparu digon o wybodaeth fel y gall aelodau wneud penderfyniadau gwybodus
- Cyfathrebu mewn ffordd glir a chryno
- Sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu, gan ystyried gwahanol anghenion y gwahanol fudd-ddeiliaid, ond gan ffafrio defnyddio gohebiaeth electronig os yw'n effeithlon ac yn effeithiol gwneud hynny
- Chwilio am ffyrdd cost-effeithlon ac amgylcheddol gyfrifol o gyfathrebu drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth
- Arfarnu effeithiolrwydd prosesau cyfathrebu'n rheolaidd a llunio cyfryngau cyfathrebu'r dyfodol mewn ffordd briodol

Mae gennym hefyd amcanion unigol a phenodol ar gyfer cyfathrebu ag aelodau a chyflogwyr a amlinellir yn ein Strategaeth Gyfathrebu.

### Nodau ac Amcanion y Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr

- Darparu gwasanaeth graenus, proffesiynol, rhagweithiol, amserol i'r cyflogwyr gan ganolbwyntio ar y cwsmeriaid
- Darparu'r gwasanaeth a gytunwyd mewn ffordd cost-effeithlon a chost-effeithiol gan ddefnyddio technoleg yn briodol i gael gwerth am arian

---

<sup>3</sup> Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

- Sicrhau bod y cyflogwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau dan reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Strategaeth Weinyddu'r Gronfa
- Sicrhau y darperir gwybodaeth gywir am aelodau i'r Gronfa, ar y ffurf gywir, yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt
- Sicrhau y diogelir data ac na chânt eu defnyddio heb awdurdod

## Busnes fel arfer

### Gweithrediadau

- Darparu gwybodaeth berthnasol i aelodau unigol o'r cynllun a'u buddiolwyr, gan gynnwys:
  - Cyfrifo eu hawl i bensiynau a buddion marwolaeth a'u hysbysu o hynny
  - Rhoi amcan o fuddion ymddeol yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol i gyflogwyr
  - Rhoi gwybodaeth i aelodau'r cynllun ynglŷn â ffyrdd y gallant gynyddu eu buddion pensiwn
- Cynnal cofnodion aelodau'r cynllun yn cynnwys:
  - Newidiadau i fanylion personol
  - Newidiadau i fanylion cyflogaeth
  - Prosesu trosglwyddo hawliau pensiwn a chydgrynhoi cofnodion aelodau
- Ymateb i ymholiadau aelodau'r cynllun (yn cynnwys galwadau ffôn)

### Cyflogres y Pensiynwyr

- Cyfrifo pensiynau misol yr holl bensiynwyr a buddiolwyr a'u talu
- Cyflwyno slipiau cyflog (lle mae'r cyflog net wedi newid)
- Prosesu cynnydd ym mhensiynau blynyddol a chyflwyno datganiadau i bensiynwyr a buddiolwyr am y cynnydd
- Cyflwyno ffurflenni P60
- Ymchwilio i daliadau a ddychwelwyd a mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ordalu pensiynau neu beidio â thalu digon
- Diweddarau a chynnal cywirdeb manylion pensiynwyr a buddiolwyr
- Cynnal profion bodolaeth ar gyfer taliadau pensiynwyr a buddiolwyr
- Ymateb i ymholiadau aelodau'r cynllun (yn cynnwys galwadau ffôn)
- Adrodd yn ôl i Gyllid a Thollau a gwneud taliadau iddynt.

### Cyfathrebu

- Rhoi gwybodaeth i aelodau drwy newyddlenni a bwletinau newyddion cryno
- Cynnal gwefan y Gronfa a'r cyfleuster hunanwasanaeth i aelodau, a hybu'r defnydd ohonynt
- Rheoli mewnlwch e-bost cyffredinol aelodau'r cynllun
- Datblygu dulliau'r Gronfa o gyfathrebu â budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i bawb

- Cysylltu â chyflogwyr sy'n ymuno â'r Gronfa neu'n ymadael â hi, a rhoi gwybodaeth iddynt am eu cyfrifoldebau i'r Gronfa
- Darparu hyfforddiant parhaus a diweddariadau technegol i gyflogwyr
- Cynnal Cyfarfod Blynnyddol a digwyddiadau ymgysylltu i gyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau
- Gweinyddu Gweithdrefn Fewnol y Gronfa ar gyfer Datrys Anghydfod.

## Prosiectau

- Prosiect blynnyddol gan gynnwys:
  - darparu gwybodaeth trethu Pensiynau Blynnyddol i'r holl aelodau yr effeithir arnynt ac sydd mewn perygl
  - cyfrifo a thalu pensiynau atodol, cynyddu cyfandaliadau
- Ymarferion glanhau data mawr
- Rheoli prosiectau achlysurol, fel gweithredu newidiadau mawr yn y cynllun a mentrau cenedlaethol, gan gynnwys dangosfyrddau pensiynau cenedlaethol
- Ail-gyfrifo buddion yn dilyn dyfarniadau cyflog wedi'u hôl-ddyddio
- Diweddaru cofnodion pensiynau mewn perthynas â throsglwyddiadau mawr o staff

## Technegol

- Darparu Datganiadau Buddion Blynnyddol i holl aelodau gweithredol a gohiriedig y cynllun
- Cyflwyno datganiadau blynnyddol i bensiynwyr a buddiolwyr am y cynnydd yn y pensiwn
- Cynnal a diweddaru'r system meddalwedd pensiynau, gan gynnwys defnydd effeithiol o ymarferoldeb y system
- Goruchwylio ffurflenni misol y cyflogwyr
- Rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â newidiadau mewn prosesau yn dilyn newid mewn deddfwriaeth
- Datblygu adroddiadau i roi gwybodaeth ar gynnydd yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol, a rheoli gwaith beunyddiol
- Monitro amserlenni ar gyfer cyflogwyr sy'n cyflwyno gwybodaeth yn unol â'r broses uwchgyfeirio cyflogwyr
- Rhoi gwybodaeth i actwari'r Gronfa fel y bo'r angen am ddulliau newydd a gwahanol o ddarparu gwasanaethau cyflogwyr
- Darparu adroddiadau a detholiadau i Actwari'r Gronfa ac Adran Actiwari'r Llywodraeth<sup>4</sup>

---

<sup>4</sup>Adran Actiwari'r Llywodraeth

## Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr

Ar ran cyflogwyr:

- Rhoi hysbysiadau ynglŷn â dechreuwyr newydd, newidiadau personol/cyflogaeth ac ymadawyr/rhai sy'n ymddeol yn y Gronfa
- Dilysu ac uwchlwytho ffeiliau iConnect misol
- Llunio amcangyfrifon o fuddion i aelodau'r cynllun a'r cyflogwyr
- Ymateb i geisiadau sy'n disgwyl am wybodaeth er mwyn glanhau'r cofnodion pensiynau
- Cyflawni gwaith fel y bo'r angen i glirio data sy'n weddill ar ddiwedd blwyddyn neu ddatrys ymholiadau eraill am ddata
- Rheoli prosiectau achlysurol, fel gweithredu newidiadau mawr yn y cynllun a mentrau cenedlaethol
- Darparu cefnogaeth ac adborth parhaus i gyflogwyr ar ansawdd data.

## Risgiau Gweinyddu a Chyfathrebu

Allwedd:

| Amlygiad i Risg | Agwedd      | Gweithred                                                                                                             |
|-----------------|-------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Coch            | Annerbyniol | Risgiau sydd y tu hwnt i barodrwydd y Gronfa i dderbyn risg.                                                          |
| Oren            | Goddefol    | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg ond nid ar lefel dderbyniol.                                        |
| Melyn           | Digonol     | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg sydd angen eu monitro gan Uwch Reolwyr, os bydd y risg yn gwaethgu. |
| Gwyrdd          | Derbyn      | Risgiau o fewn parodrwydd y Gronfa i dderbyn risg.                                                                    |

| Digwyddiad Risg (gallai hyn ddigwydd)                                                       | Effaith y Risg (... a allai arwain at yr [effaith] ganlynol i'n hamcanion)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Statws Presennol y Risg | Statws Targed y Risg | Camau Pellach a'r Perchennog                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|---------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Mae angen newidiadau sylweddol i brosesau a gweithdrefnau gweinyddu a chyfathrebu presennol | <ul style="list-style-type: none"> <li>Oedi wrth brosesu oherwydd cynnydd mewn gwaith a/neu angen ailddyrannu adnoddau</li> <li>Gwallau wrth gyfrifo buddion / cyfathrebu oherwydd diffyg dealltwriaeth o newidiadau gan gyflogwyr a / neu dîm gweinyddol Cronfa Bensiynau Clwyd</li> <li>Oedi wrth brosesu oherwydd oedi wrth wella systemau</li> <li>Cwynion, Gweithdrefnau Datrys Anghydfodau Mewnol, costau unioni a niwed i enw da</li> </ul> | Coch                    | Melyn                | <ol style="list-style-type: none"> <li>Profi a gweithredu meddalwedd newydd yn llawn ar gyfer datrysiadau McCloud er mwyn medru cwblhau gwaith dilysu / llwytho data McCloud a chywiro buddion (AH/JT)</li> <li>Gweithredu'r tîm prosiect yn llawn i ymgymryd â'r holl brosiectau gweinyddol mawr (KWi/KW)</li> </ol> |

## Tasgau allweddol y Cynllun Busnes

| Cyf                                            | Gweithred Allweddol - Tasg                                                 | Cyfnod 2025/2026 |     |     |     | Blynyddoedd Diweddarach |           |
|------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|------------------|-----|-----|-----|-------------------------|-----------|
|                                                |                                                                            | Ch1              | Ch2 | Ch3 | Ch4 | 2026/2027               | 2027/2028 |
| Meysydd Hanfodol a Reoleiddir                  |                                                                            |                  |     |     |     |                         |           |
| A1                                             | Dyfarniad McCloud                                                          | x                | x   | x   | x   |                         |           |
| A2                                             | Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol                                         | x                | x   | x   | x   | x                       |           |
| A3                                             | Gweithredu Newidiadau mewn Buddion Goroeswyr (nid yw'r dyddiadau'n hysbys) | x                | x   | x   | x   |                         |           |
| A4                                             | Newidiadau Cenedlaethol Eraill a Ddisgwylir (nid yw'r dyddiadau'n hysbys)  |                  |     |     |     |                         |           |
| A5                                             | Paratoi Data Aelodau ar gyfer y Prisiad Teirblwydd                         | x                | x   |     |     |                         |           |
| Prosiectau â Blaenoriaeth a Lywir gan y Gronfa |                                                                            |                  |     |     |     |                         |           |
| A6                                             | Adolygu Polisiâu a Strategaethau Gweinyddu a Chyfathrebu                   | x                |     |     |     | x                       | x         |
| A7a                                            | Tîm Gweinyddu - gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu wedi'i diweddarau      | x                | x   | x   | x   |                         |           |
| A7b                                            | Tîm Cyllid - gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu wedi'i diweddarau         |                  |     | x   | x   |                         |           |

# Meysydd Hanfodol a Reoleiddir

## A1: Dyfarniad McCloud

### Beth yw hyn?

Mae Dyfarniad McCloud yn cyfeirio at achos llys gwahaniaethu ar sail oedran, ble y dyfarnwyd bod mesurau diogelu i aelodau hŷn, a gyflwynwyd yn ystod diwygiadau'r Llywodraeth o gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus yn 2014 a 2015 yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. Yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, roedd y mesurau diogelu yn berthnasol i aelodau'r cynllun cyfartaledd gyrfa newydd oedd o fewn 10 mlynedd o Oedran Pensiwn Arferol ar 1 Ebrill 2012 ar ffurf addewid "y gorau o'r ddau". Mae hyn yn golygu cymharu'r buddion sydd i'w talu dan y cynlluniau cyfartaledd gyrfa a chyflog terfynol a thalu'r swm uwch. Gelwir y trefniant diogelu hwn yn danategiad.

Er mwyn dileu'r gwahaniaethu, cafodd Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eu diweddarau o 1 Hydref 2023 i gynnig trefniadau diogelu i'r holl aelodau cymwys ar gyfer y cyfnod unioni (1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022). Er bod rheoliadau ar waith ar gyfer prif elfen yr unioni, i fyny at fis Mawrth 2024, rydym yn dal i aros am reoliadau i weithredu gofynion ar gyfer gwasanaeth dros ben i athrawon. Er bod yr holl ganllawiau sy'n ymwneud â digwyddiadau aelodau (gan gynnwys cyfrifiadau hanesyddol) bellach wedi'u derbyn, bu oedi sylweddol o ran hyn ac felly, rydym yn parhau i weithio drwy'r achosion a oedd wedi'u gohirio yn flaenorol. Mae angen uwchraddio'r feddalwedd weinyddol o hyd i gynnwys rhai o'r gofynion newydd.

Mae gweithredu'r gwaith unioni'n ymwneud â McCloud wedi golygu ymarfer mawr i gasglu data hanesyddol, ac rydym bron â'i orffen. Mae'n cael effaith sylweddol ar ein prosesau a systemau gweinyddol, ac rydym wedi gorfod cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr ac aelodau'r cynllun. Oherwydd y gofynion ychwanegol sylweddol o ran adnoddau, mae gennym aelodau tîm pwrpasol ar gyfer gwaith McCloud.

Rydym bron â chwblhau'r ymarfer casglu a dilysu data. Mae cyfran fawr o gofnodion aelodau wedi'u diweddarau. Fodd bynnag, mae'r broses o gwblhau'r mewnbwn data ar gyfer cofnodion sy'n weddill o fewn y cwmpas yn mynd rhagddo ac mae hyn yn hanfodol ar gyfer ymdrin â phob achos busnes yn ôl yr arfer ar sail awtomataidd.

Ar gyfer y cofnodion lle mae data McCloud wedi'i uwchlwytho, rydym wedi dechrau adolygu cofnodion aelodau'r cynllun i'w diweddarau ag unrhyw wybodaeth sylfaenol berthnasol. Ar gyfer aelodau gweithredol a gohiriedig bydd angen cwblhau hyn cyn cyhoeddi'r datganiadau buddion blyneddol (erbyn 31 Awst 2025). Ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr hanesyddol ac yn aelodau dibynnol o fewn y cwmpas, bydd angen i ni ail-gyfrifo i benderfynu a oes unrhyw daliadau ychwanegol yn ddyledus. Cyhoeddwyd canllawiau statudol yn nodi'r flaenoriaeth ar gyfer y gwaith hwn ym mis Mehefin 2024 a byddwn yn dilyn y dull gweithredu hwn.

## Amserlenni a Chamau

|                                                                                                                                      |                                            |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|
| Casglu, dilysu ac uwchlwytho data i Altair (bron â chwblhau)                                                                         | 2025/2026 Ch1                              |
| Nodi a diweddarw gwasanaeth ar gyfer aelodau lle nad yw cofnodion lluosog yn cael eu cyfuno (gan gynnwys cofnodion cydamserol)       | 2025/2026 Ch1                              |
| Casglu, dilysu ac uwchlwytho data yn ymwneud ag aelodaeth flaenorol aelodau mewn cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus                | 2025/2026 Ch1                              |
| Cwblhau a chyhoeddi datganiadau buddion blynyddol (gweithredol a gohiriedig) gan gynnwys gwybodaeth McCloud                          | 2025/2026 Ch2                              |
| Ail-gyfrifo buddion hanesyddol (cywiro budd-daliadau) – prosesu ail-gyfrifiadau, paratoi llythyrau at aelodau a thalu balans buddion | 2025/2026 Ch2                              |
| Cyfathrebu parhaus ag aelodau'r cynllun yn ôl yr angen                                                                               | 2025/2026 Ch1 i Ch2                        |
| Asesu effaith canlyniad gwasanaeth gormodol Athrawon                                                                                 | I'w gadarnhau ond tybir 2025/2026 Q3 to Q4 |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

I'w arwain gan y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau. Bydd yr adnoddau mewnol ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer y tîm rhaglen McCloud yn parhau gydol 2025/2026. Er bod y gwaith yn cael ei reoli gan y tîm rhaglen McCloud penodol, bydd hyn yn effeithio ar y Tîm Gweinyddu cyfan. Erys hefyd gostau ychwanegol ar gyfer ymgynghorwyr (gan gynnwys gwasanaeth rheoli rhaglenni a ddarperir gan yr Ymgynghorydd Annibynnol) a phethau achlysurol megis costau postio ac argraffu. Ni ddisgwylir unrhyw gostau system ychwanegol. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2025/2026 yw £347,000.

## A2: Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol

### Beth yw hyn?

Mae'r Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol yn fenter gan y Llywodraeth i ganiatáu i bawb sy'n cronni pensiwn yn y DU weld gwerthoedd eu cronfeydd pensiwn i gyd ar-lein, gan gynnwys pensiwn y wladwriaeth, drwy un llwyfan canolog. Mae Deddf Cynllun Pensiwn 2021, Rheoliadau Dangosfwrdd Pensiynau 2022 a Rheoliadau Dangosfwrdd Pensiynau (Diwygiedig) 2023 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu'r dangosfwrdd. Mae yna hefyd safonau amrywiol wedi'u hamlinellu gan y rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP) y mae'n rhaid cadw atynt (mae'r rhain yn cynnwys safonau data, technegol ac adrodd). Rhaid i bob cynllun pensiwn gysylltu ag isadeiledd y dangosfwrdd erbyn eu "dyddiad gweithredu" fel y'i pennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gyda'r dangosfyrddau ar gael i'r cyhoedd yn y dyfodol (disgwylir hyn ar ddiwedd 2026/dechrau

2027). Disgwylir mai'r dyddiad gweithredu ar gyfer holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fydd 31 Hydref 2025.

Sefydlwyd prosiect Dangosfwrdd Pensiynau Cronfa ffurfiol yn 2024/2025 ac mae holl ddogfennaeth y prosiect gan gynnwys camau gweithredu, penderfyniadau a chofnodion risg wedi'u cychwyn.

Mae gofynion y dangosfwrdd hefyd yn cynnwys Taliadau Ychwanegol Gwirfoddol (AVC). Gan hynny mae'r Gronfa wedi meithrin cyswllt â Prudential ac Utmost, ei ddarparwr Taliadau Ychwanegol Gwirfoddol, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y dangosfwrdd.

Er y bydd y Gronfa'n dibynnu ar ei Ddarparwr Gwasanaeth Integredig, darparwr ei meddalwedd gweinyddu (Heywood) a'r darparwyr Taliadau Ychwanegol Gwirfoddol i wneud y rhan helaeth o'r gwaith ar gyfer y prosiect gweithredu, bydd yno waith ychwanegol i'r Gronfa hefyd, gan gynnwys gweithredu prosesau newydd pan mae'r dangosfwrdd ar waith. Felly, bydd llawer o waith i'r Gronfa ei wneud mewn perthynas â:

- gweithredu'r dangosfwrdd cyn ac ar ôl y dyddiad llwyfannu, ond cyn i'r dangosfyrddau fod ar gael i'r cyhoedd.
- rheoli'r dangosfwrdd gan gynnwys trosglwyddo data ac ymholiadau aelodau unwaith y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Rheolwr Gweithredu Pensiynau rhan mewn gweithgor Cymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes wrth ddatblygu'r Dangosfwrdd. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd hefyd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o brofi'r gwelliannau i'r dangosfwrdd pensiwn wrth ei integreiddio â'r feddalwedd gweinyddu.

## Amserlenni a Chantau

|                                                                                                                                           |                                                            |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|
| Ymarfer glanhau data swmpus i baratoi ar gyfer cyflwyno data gweld a gwerth i'r dangosfwrdd (i'w gwblhau erbyn 31 Hydref 2025 fan bellaf) | 2025/2026 Ch1 to Ch2                                       |
| Profi gweithrediad y system, gan gynnwys adroddiadau                                                                                      | 2025/2026 Ch1                                              |
| Ystyried meini prawf ar gyfer paru data a chytuno arnynt                                                                                  | 2025/2026 CH1                                              |
| Datblygu cynllun cyfathrebu, a datblygu a chyhoeddi negeseuon amrywiol i aelodau a budd-ddeiliaid eraill (eisoes wedi dechrau)            | Y tu hwnt i'r dyddiad gweithredu (amcangyfrifir 2026/2027) |
| Adolygu a diwygio prosesau gweinyddol ac ystyried yr effaith ar adnoddau / cyllidebau yn y dyfodol (eisoes wedi dechrau)                  | 2025/2026 Ch3                                              |
| Cytuno ar brosesau dangosfwrdd, eu sefydlu a'u rhoi ar waith gyda darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (eisoes wedi dechrau)       | 2025/2026 Ch2                                              |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

I'w arwain gan y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau a'i reoli gan y Tîm Prosiectau. Y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/2026 yw £56,000 ac mae'n cynnwys costau system ychwanegol ar gyfer yr ISP (gan gynnwys costau sefydlu) a chostau ymgynghori ar gyfer cymorth technegol, mae'r gyllideb ar gyfer cymorth gan y Tîm Prosiectau wedi'i chynnwys yn y gyllideb staffio. Disgwylir gostyngiad o £20,000 mewn costau ISP yn y blynyddoedd i ddod unwaith y bydd y gwaith gweithredu wedi'i gwblhau. Yr elfen fwyaf ansicr fydd yr effaith ar faich gwaith y Tîm Gweinyddu Pensiynau unwaith y bydd y dangosfwrdd yn weithredol. Bydd adnoddau parhaus yn cael eu hystyried fel rhan o gyllideb 2026/2027, neu'n gynt os oes angen pan fydd y dyddiad gweithredu wedi'i gadarnhau.

## A3: Gweithredu Newidiadau mewn Buddion Goroeswyr

### Beth yw hyn?

Oherwydd rhai achosion llys diweddar, mae angen ailedrych ar hawl i fudd-daliadau goroeswyr ar gyfer rhai achosion hanesyddol. Mae gwaith eisoes ar y gweill ar y newidiadau canlynol i fuddion goroeswyr:

- y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiadau Amrywiol) 2018 (SI2018/1366) sy'n effeithio ar gyfrifiad a hawliadau **pensiynau i bartneriaid sy'n goroesi o Bartneriaethau Sifil neu briodasau o'r un rhyw**
- canlyniad achos **Elmes v. Essex** lle dyfarnodd yr Uchel Lys y gallai partneriaid unrhyw aelodau a adawodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, ac a fu farw wedi hynny gyda Phartner oedd yn Cyd-fyw yn eu goroesi, gael pensiwn goroeswr hyd yn oed heb ffurflen enwebu cyn belled â'u bod yn dal i fodloni'r meini prawf cymhwyster

### Amserlenni a Chantau

|                                                                                                                       |                     |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Olrhain partneriaid sy'n goroesi yr effeithiwyd arnynt, cysylltu â hwy, gwirio eu hawliadau ac ail-gyfrifo eu buddion | 2025/2026 Ch1 i Ch4 |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

I'w arwain gan y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau. Cynhelir y prosiectau hyn gan y Tîm Prosiect a'r Tîm Gweithrediadau i sicrhau bod buddion i'r holl bartneriaid sy'n goroesi yn cael eu hadolygu a'u haddasu pan fo'n briodol.

## A4: Newidiadau Cenedlaethol Eraill a Ddisgwylir

Disgwylir nifer o newidiadau pellach gyda hyn ond nid yw'r manylion terfynol ar gael eto. Mae'r rhain yn cynnwys y newidiadau isod ar sail y sefyllfa ddechrau 2025.

## Goodwin

Disgwylir Rheoliadau'n ymwneud â dyfarniad y Tribiwnlys Cyflogaeth ("achos Goodwin") ym mis Mehefin 2020, a oedd a wnelo â'r Cynllun Pensiwn i Athrawon, ac a ddaeth i'r casgliad bod darpariaethau ar gyfer buddion goroeswr i fenyw mewn priodas lle nad yw'r ddau o'r un rhyw yn llai ffafriol nag ydynt i fenyw mewn partneriaeth sifil neu sy'n briod â menyw arall, a bod hyn yn cyfateb i wahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar 20 Gorffennaf 2020 y byddai angen gwneud newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eraill â threfniadau tebyg. Pan fydd y rheoliadau hyn wedi'u gwneud, bydd angen rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

## Rheoli Costau

Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth hefyd wedi cwblhau proses rheoli costau 2020 bellach, ac nid yw proses y Corff Cymeradwyo na'r Trysorlys wedi argymhell unrhyw newidiadau i fuddion neu gyfraniadau. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn y broses o gasglu'r data er mwyn gwneud cyfrifiadau rheoli costau 2024. Disgwylir i unrhyw newidiadau i fuddion neu gyfraniadau aelodau sy'n deillio o broses 2024 fod yn gymwys o 1 Ebrill 2027.

O safbwynt gweinyddol, pe byddai newidiadau mewn buddion a / neu gyfraniadau aelodau o ganlyniad i'r broses rheoli costau yn 2024 gallai hynny gael effaith sylweddol ar brosesau a systemau gweinyddol a chreu gofyn hefyd am ymarfer cyfathrebu cadarn gyda chyflogwyr ac aelodau'r cynllun.

Hefyd, ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Bwrdd Cynghori'r Cynllun ei benderfyniad i ailedrych ar salwch Haen 3 a chyfraniadau ar gyfer yr aelodau sy'n ennill y cyflogau isaf gyda'r bwriad o wneud argymhellion yn y meysydd hyn ar wahân i'r broses rheoli costau. Nid yw'r argymhellion hyn wedi'u cyhoeddi hyd yma, ond byddent yn golygu gwaith ychwanegol i'r Tîm Gweithrediadau pe byddent yn cael eu cynnig.

## Bargen Deg

Ym mis Mai 2016 cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bellach) y byddai'n ymestyn y Fargen Deg Newydd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hyn yn golygu y byddai unrhyw staff sy'n trosglwyddo i gontractwr yn parhau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a byddai angen i'r cyflogwr newydd gael statws corff derbyn, heb opsiwn i gynnig cynllun pensiwn a dystiwyd ei fod yn cymharu'n gyffredinol â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ar 10 Ionawr 2019 cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ynglŷn â'r Fargen Deg - Cryfhau Diogeliad Pensiwn. Cadarnhaodd y cynnig a wnaed yn 2016 fod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gynnig aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i bobl a drosglwyddwyd yn orfodol o gyflogwr yn y Cynllun, hyd yn oed os gosodir y contract yn allanol am yr eildro. Roedd hefyd yn cynnwys cynigion i drosglwyddo asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn awtomatig pan mae cyflogwyr y

cynllun yn rhan o uno neu drosfeddiannu cwmnïau. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 4 Ebrill 2019 ond ni chafwyd ymateb gan y Llywodraeth hyd yma. Mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun wedi ceisio sicrhau bod hyn yn parhau ar agenda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, gan ysgrifennu ati ddiwethaf ar 17 Hydref 2023. Cadarnhaodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn cynhadledd ym mis Ionawr 2025 ei bod yn dal ar eu hagenda i ystyried hyn fel un o'u prosiectau diwygio.

## Cynyddu isafswm yr oedran ymddeol

Mae'r Ddeddf Cyllid yn gweithredu cynigion blaenorol i gynyddu'r oedran pensiwn arferol o 55 i 57 ym mis Ebrill 2028. Nod y newid hwn yw cynnal bwlch o ddeng mlynedd rhwng yr isafswm oedran ymddeol ac oedran pensiwn y wladwriaeth fel y cadarnhawyd yn rhan o bolisi'r Llywodraeth yn 2014. Mae'r Ddeddf Cyllid yn darparu ar gyfer diogelu oedrannau pensiwn aelodau sy'n bodloni meini prawf penodol, ond er mwyn gallu gwneud hynny mae'n rhaid diwygio rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi nodi hyd yma a ydynt yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn.

Yn y cyfamser, mae angen i ni gofnodi unrhyw oedrannau pensiwn a ddiogelir y gallai aelodau newydd fod â hawl iddynt, a fydd yn deillio'n bennaf o aelodaeth bresennol o'r cynllun neu drosglwyddo o drefniant pensiwn arall.

## Ymgynghoriad Treth Etifeddiant

Ar 30 Hydref 2024 lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar newidiadau i'r rheolau ynghylch treth etifeddiant; yn benodol y byddai grantiau marwolaeth yn cael eu cynnwys yn ystâd yr ymadawedig ac y gallent felly fod yn destun treth etifeddiant, y byddai gweinyddwr y cynllun pensiwn yn gyfrifol am ei dalu. Ar hyn o bryd, gan fod gan awdurdodau gweinyddol CPLIL y disgrisiwn i benderfynu pwy ddylai gael unrhyw grant marwolaeth sy'n daladwy o'r cynllun, nid yw'n rhan o ystâd yr aelod ymadawedig ac felly nid yw'n destun unrhyw dreth etifeddiant.

Os bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt yn unol â chynigion y Llywodraeth, o fis Ebrill 2027 byddai'n rhaid i'r Gronfa roi gweithdrefnau gweinyddol ychwanegol ar waith i sicrhau bod y wybodaeth briodol yn cael ei chasglu oddi wrth gynrychiolwyr personol yr ymadawedig er mwyn caniatáu i'r Gronfa asesu a yw treth etifeddiant yn daladwy, ac i wneud y taliad priodol i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae'r cynigion yn cynnwys amserlenni tynn ar gyfer casglu ac adrodd ar wybodaeth.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Ionawr 2025 ac ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, rydym yn aros am ymateb gan y Llywodraeth i ganfod a fydd buddion marwolaeth CPLIL yn cael eu cynnwys mewn unrhyw newidiadau deddfwriaethol a beth yn union fydd yr effaith bosibl ar weithdrefnau'r Gronfa.

## Bwlch Pensiynau Rhwng y Rhywiau

Mae gwaith a wnaed gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn 2024 wedi nodi bod menywod yn gyffredinol yn cael canlyniadau pensiwn is o'r CPLIL o gymharu â dynion, a sefydlwyd gweithgor i ymchwilio i hyn ac ystyried beth y gellid ei wneud i wella canlyniadau i fenywod.

Ar 13 Awst 2024 ysgrifennodd y Corff Cymeradwyo at y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gofyn am adolygiad o'r rheolau a'r ffactorau ar gyfer Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol Costau a Rennir (SCAPCs), yn gofyn i'r rheolau gael eu gwneud yn haws i'w deall a rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr eu gweithredu, gan ganiatáu i'r rhai sy'n colli gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu (menywod yn bennaf) wneud trefniadau i dalu am unrhyw hawliau pensiwn a gollwyd yn haws. Nid yw'r Weinyddiaeth wedi ymateb eto heblaw am ddweud mewn cynhadledd ym mis Ionawr 2025 bod hwn ar eu hagenda i'w ystyried fel un o'u prosiectau diwygio. Mae'r gweithgor yn parhau i gyfarfod ac mae'n bosibl y caiff awgrymiadau pellach eu gwneud ar gyfer newidiadau i'r Cynllun.

## Optio Allan

Dyweddodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ddiweddar eu bod yn canolbwyntio ar wella tegwch yn y CPLIL a'u bod yn edrych ar brosiect diwygio ar gyfer optio allan. Caiff y Bwlch Pensiynau Rhwng y Rhywiau, a "bylchau" eraill mewn buddion pensiwn rhwng grwpiau â nodweddion eraill, eu hesbonio'n rhannol gan y rhai sy'n fwy tebygol o "optio allan" o aelodaeth CPLIL pan fyddant yn cael eu cofrestru'n awtomatig. Ym mis Mai 2024 cyhoeddodd y Corff Cymeradwyo arolwg byr i gyflogwyr llywodraeth leol ynghylch optio allan o'r CPLIL. Bydd y data a gesglir o'r arolwg hwn yn helpu i wella dealltwriaeth o aelodaeth CPLIL a pham y gall aelodau ddewis optio allan. Nid yw'n hysbys ar adeg drafftio a fydd y prosiect diwygio hwn yn effeithio ar lwyth gwaith y tîm gweinyddol. Er bod ceisio annog mwy o weithwyr i ymuno â'r cynllun yn ymddangos yn fwy tebygol o effeithio ar gyflogwyr, efallai y bydd rhai goblygiadau i gyfathrebiadau a ddarperir gan yr awdurdod gweinyddu.

## Amserlenni a Chamau

|                                                                                                                                                   |        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Gweithredu'r newidiadau gofynnol yn ymwneud â dyfarniad Goodwin unwaith y bydd y rheoliadau wedi'u diwygio                                        | Ansicr |
| Gweithredu newidiadau ym muddion a / neu gyfraniadau aelodau os oes angen o ganlyniad i broses rheoli costau 2024                                 | Ansicr |
| Diwygio'r prosesau derbyn yn unol â'r Fargen Deg newydd                                                                                           | Ansicr |
| Gweithredu newidiadau ar gyfer cyfrifo buddion wrth ymddeol yn gynnar a'r taliadau straen cysylltiedig os bydd cap ymadael yn cael ei ailgyflwyno | Ansicr |
| Monitro'r oeddrannau ymddeol a ddiogelir a chyfathrebu ag aelodau a chyflogwyr fel y bo'n briodol os yw'r oedran ymddeol yn codi                  | Ansicr |
| Gweithredu newidiadau i brosesau gweinyddol yn ôl yr angen o ganlyniad i'r ymgynghoriad Treth Etifeddiant                                         | Ansicr |

|                                                                                                                                                         |        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Gweithredu unrhyw newidiadau a chyfathrebu ag aelodau / cyflogwyr yn ôl yr angen unwaith y ceir gwybodaeth bellach am y bwlch pensiynau rhwng y rhywiau | Ansicr |
| Gweithredu unrhyw newidiadau a chyfathrebu ag aelodau / cyflogwyr yn ôl yr angen unwaith y ceir gwybodaeth bellach am yr adolygiad optio allan          | Ansicr |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Nid yw'r goblygiadau o ran adnoddau'n glir felly byddant yn cael eu hystyried pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

## A5: Paratoi Data Aelodau ar gyfer y Prisiad Teirblwydd

### Beth yw hyn?

Mae'r prisiad teirblwydd ar 31 Mawrth 2025 yn gofyn i'r tîm gweinyddu pensiynau ddarparu data i Actiwari'r Gronfa.

Mae hynny'n cynnwys cynnal ymarfer glanhau diwedd blwyddyn ychwanegol ar ôl 31 Mawrth 2025 i sicrhau bod ansawdd y data'n ddigonol ar gyfer y prisiad ffurfiol, ac unioni unrhyw anghysonderau a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses brisio.

Cwblhawyd prisiad interim yn ystod 2024/2025 lle mae rhywfaint o waith dilysu data dechreuol wedi'i gwblhau eisoes.

### Amserlenni a Chantau

|                                                                                                             |                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Paratoi data ar gyfer prisiad 31 Mawrth 2025 ac ymchwilio ac ymateb i ymholiadau data gan Actiwari'r Gronfa | 2025/2026 Ch1 i Ch2 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Y Tîm Technegol a fydd yn cyflawni'r gwaith hwn yn bennaf, gyda chymorth gan weddill y Tîm Prosiect a Gweithrediadau yn dibynnu ar y gofynion. Telir yr holl gostau mewnol o'r gyllideb bresennol. Bydd y gwaith gan Actiwari'r Gronfa ar gyfer y prisiad interim yn cael ei gynnwys yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/2026.

## Prosiectau â Blaenoriaeth a Lywir gan y Gronfa

## A6: Adolygu Polisiâu a Strategaethau Gweinyddu a Chyfathrebu

### Beth yw hyn?

Mae sawl polisi yn ymwneud â gweinyddu a chyfathrebu sydd angen eu hadolygu'n rheolaidd ac mae'r rhain i'w gweld yn y tabl isod. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu rhai o'r polisiâu hyn cyn eu dyddiad adolygu o ganlyniad i ddeddfwriaeth neu ganllawiau sy'n

newydd neu'n destun newidiadau. Er enghraifft, disgwylir deddfwriaeth a chanllawiau yn ystod 2025/2026 mewn perthynas â chynhyrchu Strategaethau Gweinyddu o ganlyniad i elfennau llywodraethu da o Ymgynghoriad Parod at y Dyfodol Trysorlys Ei Fawrhydi. Y gobaith yw na fydd yn effeithio ar Strategaeth bresennol y Gronfa ond mae'n ansicr ar hyn o bryd.

## Amserlenni a Chamau

| Polisi                                                                    | Adolygwyd ddiwethaf | Dyddiad adolygu nesaf | Amserlenni ar gyfer gwaith adolygu |
|---------------------------------------------------------------------------|---------------------|-----------------------|------------------------------------|
| Adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu                                      | Mehefin 2022        | Mehefin 2025          | 2025/2026 Ch1                      |
| Adolygu'r Polisi Taliadau Cynllun Gwirfoddol                              | Hydref 2023         | Hydref 2026           | 2026/2027                          |
| Polisi ar gyfer Gweinyddu Lwfansau Treth a Hysbysu Aelodau Ohonynt        | Tachwedd 2023       | Tachwedd 2026         | 2026/2027                          |
| Adolygu Polisi Dewisol yr Awdurdod Gweinyddu                              | Tachwedd 2023       | Tachwedd 2026         | 2026/2027                          |
| Adolygu'r Polisi Tandaliadau / Gordaliadau                                | Tachwedd 2024       | Tachwedd 2027         | 2027/2028                          |
| Adolygu'r Pensiynau Strategaeth Weinyddu                                  | Mawrth 2025         | Mawrth 2028           | 2027/2028                          |
| Adolygu'r Polisi Ansawdd Data, gan ymgorffori'r Polisi Cadw Data Personol | Mawrth 2025         | Mawrth 2028           | 2027/2028                          |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Caiff hwn ei arwain gan y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau. Telir yr holl gostau o'r gyllideb bresennol.

## A7: Rhoi'r Strategaeth Gyfathrebu a ddiweddarwyd ar waith

### Beth yw hyn?

Mae disgwyl i'n Strategaeth Gyfathrebu gael ei hadolygu eleni. Cafodd ei diweddarau'n sylfaenol ym mis Mehefin 2022 i ganolbwyntio mwy ar annog ymgysylltu â budd-ddeiliad a darparu profiadau cadarnhaol gan gynnwys croesawu technoleg er mwyn cael gwell mynediad (yn ogystal â chyflawni mesurau effeithlonrwydd). Rydym wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r mentrau hyn. Fodd bynnag, mae rhai camau gweithredu i'w cymryd i sicrhau bod

yr holl ddeunyddiau cyfathrebu ar draws holl feysydd busnes y gronfa yn cael eu diweddarau i'w gwneud yn gliriach ac yn fwy cryno.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwaith sy'n ofynnol wrth weithredu'r strategaeth newydd. Mae wedi'i rannu rhwng gwaith yn ymwneud â'r Tîm Gweinyddu a'r Tîm Cyllid.

## Amserlenni a Chantau

### A7a: Tîm Gweinyddu gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu wedi'i diweddarau

|                                                                                                                                                                          |                     |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Datblygu a chyhoeddi gohebiaeth ar gyfer aelodau sydd wedi optio allan o'r Cynllun os yw'r rhain yn hysbys i'r Gronfa                                                    | 2025/2026 Ch1       |
| Adolygu a diweddarau cyfres o lythyrau aelodau o safbwynt Saesneg Clir a darllenadwyedd (e.e. oedran darllen is); (gwefan, ffurflenni a llyfrynau eisoes wedi'u cwblhau) | 2025/2026 Ch1 i Ch2 |
| Fideos a gweddarllediadau - cytuno, cynllunio a chreu cyfres o fideos a gweddarllediadau gweinyddu a chyfathrebu                                                         | 2025/2026 Ch1 i Ch2 |
| Datblygu cyfres o ddeunyddiau cyfathrebu ar gyfer cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol / cyfraniadau pensiwn ychwanegol                                                     | 2025/2026 Ch1 i Ch2 |
| Gweithredu darparwr platfform gwefan newydd                                                                                                                              | 2025/2026 Ch1 i Ch3 |
| Gweithredu swyddogaeth "Engage"; yn lle MSS                                                                                                                              | 2025/2026 Ch1 i Ch3 |
| Datblygu a chyhoeddi gohebiaeth ar gyfer aelodau sydd wedi optio allan o'r Cynllun lle nad yw'r rhain yn hysbys i'r Gronfa                                               | 2025/2026 Ch3       |
| Cysylltu gyda Chyngor Sir y Fflint i wella profiad defnyddwyr teleffoni                                                                                                  | 2025/2026 Ch2 i Ch4 |

### A7b: Tîm Cyllid gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu wedi'i diweddarau

|                                                                                                                                             |                      |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|
| Adolygu a diweddarau strwythur a chynnwys rhannau o'r wefan nad ydynt yn weinyddol                                                          | 2025/2026 Ch3 to Ch4 |
| Fideos a gweddarllediadau - cytuno, cynllunio a chreu cyfres o fideos a gweddarllediadau buddsoddi a materion eraill nad ydynt yn weinyddol | 2025/2026 Ch3 to Ch4 |

## Goblygiadau o ran Adnoddau a'r Gyllideb

Arweinir y gwaith hwn gan y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau ac fe'i cyflwynir yn bennaf o adnoddau mewnol, yn enwedig y Tîm Cyfathrebu, Technegol, Gweithrediadau a Chyllid. Mae'r costau mewnol wedi'u cynnwys yn y gyllideb bresennol. Mae'r Ymgynghorydd Annibynnol yn darparu rhywfaint o gyfarwyddyd allanol ac mae hynny wedi'i gynnwys yn eu cyllideb hwythau. Disgwylir y bydd cryn dipyn o waith yn gysylltiedig â gweithredu'r wefan

newydd ac Engage ond y gobaith yw y gellir cwblhau hyn gan ddefnyddio adnoddau mewnol. Efallai y bydd costau ychwanegol yn ymwneud â systemau teleffoni newydd neu wedi'u diweddarau, y wefan ac Engage, ond nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

## Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr

Gan ein bod yn deall y pwysau parhaus sydd ar adnoddau a chyllidebau cyflogwyr, rydym yn cynnig gwasanaeth i ymgymryd â'u dyletswyddau'n ymwneud â'r Gronfa ar eu rhan. Gwneir y dyletswyddau hyn gan ein Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr. Mae'r gwasanaeth yn bennaf yn darparu hysbysiadau ynglŷn â dechreuwyr newydd, newidiadau personol / newidiadau cyflogaeth ac unigolion yn ymddeol / ymadael â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gallwn hefyd ymdrin â cheisiadau sy'n disgwyl am wybodaeth er mwyn glanhau'r cofnodion pensiynau. Mae holl gostau'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr yn cael eu codi ar gyflogwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy eu cyfraddau cyfraniadau.

Yn ystod 2025/2026 busnes yn ôl yr arfer fydd gwaith y Tîm yn bennaf, gyda ffocws ar gefnogi cyflogwyr i wneud gwelliannau yn eu gweithdrefnau mewnol ar gyfer data cynlluniau pensiwn.



[cronfabensiynauclwyd.org.uk](http://cronfabensiynauclwyd.org.uk)

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.